



Tueddiadau leithoedd Cymru 2021

**Addysgu leithoedd mewn Ysgolion
Uwchradd a Cholegau Ôl-16**

**Adroddiad Arolwg
gan Ian Collen, Aisling O'Boyle a Sarah O'Neill**

British Council Cymru

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Rydym yn gwneud hyn drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig a'r gwledydd rydym yn gweithio gyda nhw – rydym yn newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin hyder. Rydym yn gweithio gyda thros 100 o wledydd ym meysydd y celfyddydau a diwylliant, Saesneg, addysg a'r gymdeithas sifil. Llunedd, ymgysyllton ni â mwy na 75 miliwn o bobl yn uniongyrchol a 758 miliwn o bobl i gyd, gan gynnwys cysylltiadau ar-lein, darllediadau a chyhoeddiadau. Sefydlwyd y British Council ym 1934 ac rydym yn elusen yn y Deyrnas Unedig a gaiff ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol ac yn gorff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

Gwefan: wales.britishcouncil.org

Twitter: [@BCouncil_Wales](https://twitter.com/BCouncil_Wales)

Facebook: www.facebook.com/BritishCouncilWales

Cynnwys

Rhagair gan British Council Cymru	04
Cyflwyniad	05
Prif ganfyddiadau	06
Cyd-destun polisi a chefnidir	07
Effaith pandemig Covid-19	10
Amlinelliad o'r ymchwil	11
Ffigurau arholiadau cyhoeddus	12
Canfyddiadau o'r arolwg ysgolion uwchradd	17
Edrych ar addysgu ieithoedd rhyngwladol mewn colegau ôl-16	21
Dimensiwn rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16	22
Astudiaethau achos	25
Y Ffindir	26
Gweriniaeth Iwerddon	30
Casgliad	35
Llyfryddiaeth gyfeiriadau	36
Ôl-nodiadau	41

Rhagair gan British Council Cymru

Mae'r British Council yn meithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yng ngwledydd Prydain a gwledydd eraill drwy gelfyddydau a diwylliant, addysg, a Saesneg.

Mae ein byd wedi dod yn fwy rhyngddibynnol, ac wrth i gydberthnasau rhyngwladol dyfu, mae'r gallu i gyfathrebu a chysylltu gyda phobl yn tyfu hefyd. Rydym yn credu bod ieithoedd yn chwarae rôl hanfodol yn rhoi sgiliau, dealltwriaeth ryngddiwylliannol a hyder i bobl ifanc gael mynediad at ystod eang o gyfleoedd yma a ledled y byd, ynghyd â chefnogi cyfleoedd gyrfa ar gyfer y dyfodol.

Mae British Council Cymru wedi cyhoeddi adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd yn flynyddol ers 2015, ac mae eirioli dros ddysgu ieithoedd mewn ysgolion a darparu adnoddau, gweithgareddau a rhaglenni sy'n cefnogi addysgu ieithoedd yn rhan bwysig o'n gwaith yng Nghymru. Er ei bod wedi bod yn anodd gweld y duedd am i lawr mewn ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion, mae'r cwricwlwm newydd ynghyd â'r newidiadau yn y cymwysterau'n cynnig cyfle euraidd i fynd i'r afael â'r cwymp hwn, ac i gefnogi pobl ifanc yng Nghymru i ddod yn ddinasyddion byd-eang, sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn ieithoedd eraill a gwerthfawrogi diwylliannau eraill.

Jenny Scott, Cyfarwyddwr, British Council Cymru

Cyflwyniad

Cyhoeddir adroddiad Tueddiadau leithoedd Cymru 2021 yng nghydestun pandemig byd-eang. Mae athrawon a disgyblion wedi ymateb i heriau digynsail. Dim ond dechrau cyfrif y gost mae'r sector addysg, ac nid yn unig y gost i ddysg a datblygiad disgyblion, ond hefyd i'w hiechyd meddwl a'u llesiant. Hyd yn oed wrth i Covid-19 gyflwyno heriau newydd, gwelsom athrawon yn creu ac yn bachu ar gyfleoedd newydd i addysg disgyblion a datblygiad proffesiynol athrawon.

Ar ran British Council Cymru a Phrifysgol y Frenhines Belffast, hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r athrawon am gymryd rhan yn ein hymchwil yn ystod y flwyddyn ddigynsail hon. Heb gyfranogiad athrawon, ni fyddai ein hymchwil yn bosib.

Eleni, contractiodd British Council Cymru Brifysgol y Frenhines Belffast i gynnal y seithfed adroddiad arolwg Tueddiadau leithoedd Cymru, sydd wedi'i ddylunio i gasglu gwybodaeth am sefyllfa dysgu ac addysgu ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ceisio asesu effaith mesurau polisi a dadansoddi cryfderau a gwendidau yn seiliedig ar dystiolaeth ansoddol ac ar safbwyntiau a fynegir gan athrawon, a'i nod yw darparu sbardun i athrawon, arweinwyr ysgolion, academyddion, arolygwyr, llunwyr polisi a'r cyhoedd i ystyried darpariaeth ieithoedd rhyngwladol yn system addysg Cymru.

Prif Ganfyddiadau

- Er bod poblogaeth sefydlog o bobl ifanc 16 oed yng Nghymru rhwng 2015 a 2021, mae niferoedd yr ymgeiswyr TGAU mewn Ffrangeg ac Almaeneg wedi gostwng bron i hanner. Mae niferoedd ymgeiswyr TGAU mewn Sbaeneg wedi bod yn anghyson yn yr un cyfnod, ond gwelwyd cynnydd nodedig rhwng 2020 a 2021.
- Os yw'r tueddiadau presennol yn parhau heb ymyrraeth frys ar lefel system, mae'n bosib y bydd llai na chant o ymgeiswyr TGAU mewn Ffrangeg ac Almaeneg yng Nghymru erbyn 2030. Bydd angen i niferoedd ymgeiswyr Sbaeneg sefydlogi i sicrhau hyfywedd hirdymor yr iaith hon. Mae'n anochel y bydd hyn yn cael sgil-ffaith ar astudiaethau Safon Uwch, ynghyd â'r biblinell at Addysg Uwch.
- Roedd cwmp sylweddol yn ystod pandemig Covid-19 yn yr ymgeiswyr TGAU a Safon Uwch ieithoedd modern heblaw am Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd a welir yng ngwledydd eraill Prydain, yn bennaf gan nad oedd modd i ddysgwyr ieithoedd mewn ysgolion atodol gael ardystiad oherwydd y pandemig.
- Mae pandemig Covid-19 yn parhau i gael effaith negyddol fwy mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru. Adroddodd dros hanner yr athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol 'effaith negyddol fawr' ar ddysgu ieithoedd.
- Yn wahanol i rannau eraill o Brydain, mae ymgysylltiad ysgolion â phrosiectau rhyngwladol wedi aros yn sefydlog yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae llawer o waith yn dal i'w wneud. Mae angen canmol athrawon am eu hystwythder yn cynnal gwaith rhyngwladol drwy lwyfannau ar-lein.
- Mae ein data'n dangos bod y mwyafrif sylweddol o'r athrawon yng Nghymru o blaid adolygu cynnwys a dull asesu TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Daw hyn yn dilyn blynyddoedd o dynnu sylw at ba mor anodd yw arholiadau ieithoedd Tramor Modern o gymharu â phynciau eraill. Mae'n braf felly bod Cymwysterau Cymru wedi ymrwymo i adolygu TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg er mwyn dechrau eu haddysgu o fis Medi 2025.

Cyd-destun Polisi a Chefndir

Cynhaliwyd arolwg eleni yn dilyn cyfnod clo cenedlaethol ac ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, wrth i Gymru baratoi i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022 ar y cyd â chyfnod nesaf y Cynllun Dyfodol Byd-eang (2020-2022) a chynigion ar gyfer cymwysterau newydd 'gwnaed ar gyfer Cymru'.

Mae cynigion Prydain-gyfan wedi bod yn 2020 gan yr Academi Brydeinig, gan weithio gyda Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, y British Council a Universities UK, ar gyfer Strategaeth Ieithoedd Genedlaethol¹, gan gynnwys nifer o gynigion sy'n uniongyrchol berthnasol i Gymru. Yn arbennig o nodedig mae'r alwad am breimiwm ieithoedd, sef cymhelliant ariannol i annog ysgolion i gynnal dosbarthiadau Safon Uwch (bach) mewn ieithoedd rhyngwladol.

O ran polisi'r llywodraeth, mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 – 2026 yn ymrwymo'n benodol i ehangu addysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion, ynghyd â chynyddu Cymraeg ar draws pob cam o addysg. Yn wir, uchelgais Llywodraeth Cymru yw gwrthio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg.²

Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd i'w addysgu yn gyntaf o fis Medi 2022 ymlaen, ac yna'n cael ei gyflwyno mewn ysgolion uwchradd yn y blynyddoedd dilynol. Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' yn sefydlu disgwyliadau a rennir o ran sut dylai ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm newydd yn ystod y flwyddyn academiaidd i ddod.³

Gan adeiladu ar yr adolygiad Dyfodol Llwyddiannus (2015), mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn ailgysyniadu ac yn integreiddio pynciau 'traddodiadol' i Chwe Maes Dysgu a Phrofiad. O dan y diwygiad hwn, caiff ieithoedd tramor modern eu hail-labelu fel 'ieithoedd rhyngwladol', a'u hintegreiddio gyda Chymraeg a Saesneg fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad 'ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu'.

Ar hyn o bryd, mae astudio o leiaf un iaith ryngwladol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) ac fe'i chynigir fel opsiwn yng Nghyfnod Allweddol 4 (14-16 oed). Serch hynny, o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru, bydd gofyn i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn o leiaf un iaith ryngwladol arall o'r ysgol gynradd. Mae fframwaith anstatudol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ar gael ar hyn o bryd i gefnogi ysgolion.⁴

Serch hynny, er gwaethaf y ffaith bod o leiaf un iaith ryngwladol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 3, Cymru sydd yn y sefyllfa wannaf o ran y nifer sy'n dewis ieithoedd rhyngwladol⁵ ar lefel TGAU a Safon Uwch o gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon. Serch hynny, mae'r nifer sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith (Cymraeg L2) ar gyfer TGAU wedi gweld twf cyflym yn ystod y blynyddoedd diweddar.⁶ Mae statws statudol y Gymraeg ar draws cyfnod cyfan addysg orfodol (3-16 oed) yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn.⁷

Dyfodol Byd-eang 2020-2022

Amlygodd Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2020: Y Sgwrs a'r Adroddiad Cryno 5 mlynedd Dyfodol Byd-eang ystod eang o fentrau a wireddwyd drwy'r Cynllun Dyfodol Byd-eang (2015 – 2020), a gafodd ei adnewyddu ar gyfer y cyfnod 2020 – 2022. Ar adeg cyhoeddi Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2021, mae gwerthusiad annibynnol cyntaf Dyfodol Byd-eang ar waith.

Roedd y cynllun Dyfodol Byd-eang cyntaf yn dychmygu Cymru fel cenedl 'Dwyieithog a Mwy', lle mae dysgwyr yn astudio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith ryngwladol arall o lefel cynradd at arholiadau. Mae'r strategaeth estynedig yn rhoi pwyslais ar ddinasyddiaeth fyd-eang ac amlieithrwydd yn benodol, gan ategu'r Cwricwlwm newydd i Gymru sy'n ceisio datblygu sgiliau trawsieithol, fel cyfryngu, trawsieithu ac amlieithrwydd.⁸

Mae'r pwyslais hwn ar gymdeithas amlieithog o ddinasyddion sy'n siarad sawl iaith yn cynnig cyfleoedd i ieithoedd cartref a chymunedol feithrin fwy o gydnabyddiaeth fel adnodd ieithyddol yn yr ystafell ddosbarth. Yn 2019/2020, adroddwyd bod bron i 30,000 o ddysgwyr oedran ysgol yng Nghymru yn siarad iaith gyntaf heblaw am Gymraeg neu Saesneg.⁹ Serch hynny, mae nifer yr ymgeiswyr TGAU a Safon Uwch mewn ieithoedd rhyngwladol yn parhau i gwmpo, ac ymddengys mai'r nifer sy'n ceisio TGAU 'ieithoedd eraill'¹⁰ sy'n profi'r cwmp mwyaf. Gofynnodd arolwg eleni p'un a oedd canslo arholiadau allanol wedi arwain at ddisgyblion yn methu allan ar gael gradd ar gyfer eu hiaith gartref.

Y Gymraeg

Ar ôl degawdau o ddirywiad, mae ffawd y Gymraeg yng Nghymru yn gwrthdroi, sydd wedi'i ddisgrifio fel "enghraifft arfer gorau o sut mae modd defnyddio trochi iaith mewn addysg fel 'gwrth-bwysau' i ddirywiad iaith leiafrifol."¹¹ Mae dysgu Cymraeg wedi'i gefnogi gan strategaeth Cymraeg 2050, sy'n anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan gynnwys nod strategol y bydd 70% o'r holl ddysgwyr yn gallu siarad Cymraeg erbyn diwedd addysg statudol.¹²

Gellid dadlau hefyd mai deddfwriaeth oedd y prif ddylanwad dros gynyddu niferoedd. Pan gafodd y Gymraeg ei chynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn dilyn y Ddeddf Diwygio Addysg (1988), daeth Cymraeg yn bwnc gorfodol i'r holl ddysgwyr yng Nghymru yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2, a 3 (5-14 oed) ym 1990 ac yng Nghyfnod Allweddol 4 (14-16 oed) o fis Medi 1999 ymlaen. Mae llawer o ddisgyblion yn dewis Cymraeg Ail iaith ar gyfer TGAU, er nad yw'n orfodol. Mae cynnydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd wedi chwarae rhan.

Cymwysterau Newydd

Ym mis Ionawr 2021, lansiodd Cymwysterau Cymru ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer TGAU newydd a chymwysterau eraill i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Byddai'r cymwysterau 'gwnaed ar gyfer Cymru' a gynigiwyd yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yn 2027, ac yn cael eu cynnig yn Gymraeg a Saesneg, gan integreiddio llwybrau academaidd, technegol a galwedigaethol, a gan gydnabod cyflawniad ar gamau datblygu cynharach.¹³ Ym mis Hydref 2021, arweiniodd hyn i Cymwysterau Cymru lansio trafodaeth genedlaethol ar ddyfodol cymwysterau a chyhoeddi eu penderfyniad ar yr ystod o bynciau lle bydd cenhedlaeth newydd o gymwysterau TGAU yn cael eu cyd-creu. Bydd blwyddyn o gydweithio dwys yn cyflawni'r cynigion erbyn haf 2022 ar gyfer cymwysterau newydd a fydd yn barod i ddysgwyr yn 2025, a gyda'r dyfarniad cyntaf yn 2027. Ar gyfer ieithoedd rhyngwladol bydd TGAU newydd mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Bydd hefyd cyfres newydd o gymwysterau bach mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i annog ymgysylltiad ehangach gyda dysgu ieithoedd.

Daw'r cwricwlwm a'r drefn asesu newydd ar adeg o newidiadau mawr mewn cymdeithas a gwleidyddiaeth. Yn y cyd-destun hwn, roedd ein harolwg yn archwilio effaith Covid-19 ar ddysgu ieithoedd, defnydd o dechnoleg, a gweithgareddau rhyngwladol; safbwyntiau athrawon ynghylch newidiadau arfaethedig i gymwysterau, a sut mae adrannau iaith yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Effaith pandemig Covid-19

Roedd blwyddyn ysgol 2020/21 yn hollol anrhagweladwy, ac mae hi wedi newid addysg yng Nghymru, a'r gymdeithas yn gyffredinol, y tu hwnt i gydabyddiaeth. Tarfwyd yn ddifrifol ar ddysgu mewn ysgolion drwy dri chynnod clo cenedlaethol rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021.¹⁴ Mae adroddiad gan y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd yn cyfrif bod disgyblion ysgol a myfyrwyr colegau ôl-16 yng Nghymru wedi colli 124 o 190 diwrnod yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y flwyddyn galendr, gan gynrychioli'r golled uchaf o addysgu yn yr ystafell ddosbarth ym Mhrydain.¹⁵ Ar ôl y cyfnod clo (12 Ebrill – 16 Gorffennaf 2021), collodd 12 y cant o'r disgyblion yng Nghymru o leiaf wythnos o addysgu wyneb yn wyneb oherwydd Covid-19.¹⁶

Mae colli dysgu wedi effeithio ar ddyfarnu cymwysterau. Yn 2020, canslwyd arholiadau allanol, ac yn y pen draw rhoddwyd cymwysterau ar sail graddau amcangyfrifedig athrawon. Yn haf 2021, cafodd disgyblion a oedd yn gweithio tuag at gymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol, neu Safon Uwch Raddau a Bennwyd gan Ganolfannau ar sail asesiad yr ysgol neu goleg.¹⁷

Yn ein harolwg, dywedodd 42 y cant o'r ysgolion a ymatebodd fod pandemig Covid-19 wedi cael 'effaith negyddol fawr' ar ddysgu ieithoedd, ac adroddodd 37% arall 'effaith negyddol fach'. Teimlwyd effaith y pandemig yn fwy dwys yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, lle adroddodd dros hanner yr ysgolion 'effaith negyddol fawr' ar ddysgu ieithoedd. Adroddodd un ymhob pump ysgol a ymatebodd, a'r rheini mewn ardaloedd mwy cyfoethog yn bennaf, nad oedd y pandemig wedi cael effaith ar ddysgu ieithoedd.

Roedd yr athrawon yn amcangyfrif nad oedd gan un ym mhob pump disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) fynediad at y rhyngwrwyd ym mis Ionawr a Chwefror 2021. Daeth hi'n glir bod ystyr 'mynediad' yn amrywio: mewn rhai ysgolion roedd gan yr holl blant liniadur a/neu ddyfais llechen, ac mewn sefyllfaoedd eraill, roedd mynediad disgyblion wedi'i gyfyngu i gysylltu â'r rhyngwrwyd drwy ffôn clyfar. Yn achos ffonau clyfar, roedd hi'n amhosib i ddisgyblion gwblhau a lanlwytho gwaith i'w farcio. Adroddodd athrawon nad oedd gan nifer sylweddol o ddisgyblion fynediad at y rhyngwrwyd o gwbl, hyd yn oed drwy ffôn clyfar.

Yn ei dro, adroddodd athrawon broblemau gydag ymgysylltiad a chymhelliad yn lleihau yn ystod cyfnod clo mis Ionawr a Chwefror 2021; ar gyfartaledd ni wnaeth dau ymhob pump disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 ymgysylltu â dysgu iaith. Bydd angen cofio am ganlyniadau'r cyfnod hwn mewn hanes ar ddysgu ieithoedd yn y dyfodol rhagweladwy.

Serch hynny, er bod y pandemig wedi cyflwyno heriau newydd, fel dysgu ar-lein o bell, mae cyfleoedd newydd wedi bod i addysg myfyrwyr a datblygiad proffesiynol athrawon hefyd. Roedd hyn yn cynnwys nifer o ddatblygiadau cadarnhaol i arfer addysgeg athrawon. Dywedodd athrawon ieithoedd wrthon ni eu bod nhw bellach yn fwy ystwyth ac wedi dysgu sgiliau newydd a dulliau darparu newydd. Adroddodd athrawon hefyd fod sgiliau dysgu annibynnol llawer o'r disgyblion hyn wedi gwella. Meddai un athro:

“Rydw i wedi ymuno â llawer o'r cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus, a hyfforddais fy hunan mewn defnyddio technoleg i addysgu ieithoedd. Mae'r defnydd o Google Classroom wedi bod o fudd mawr er mwyn gosod tasgau dysgu gwaith cartref, a bydda i'n parhau i'w ddefnyddio ar ôl y cyfnod clo.”

Amlinelliad o'r Ymchwil

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol y Frenhines, Belffast. Rhoddodd yr holl gyfranogwyr eu cydsyniad gwirfoddol a gwybodus i gymryd rhan.

Y cwestiwn ymchwil a oedd yn llywio'r astudiaeth oedd 'Beth yw cyflwr presennol addysgu iaith mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 yng Nghymru?' Er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil, mabwysiadodd yr ymchwil ymagwedd dulliau cymysg, gan adeiladu ar yr adroddiadau blaenorol Tueddiadau leithoedd Cymru a gan ddefnyddio methodolegau sy'n fras gymaradwy ag adroddiadau Tueddiadau leithoedd Lloegr a Thueddiadau leithoedd Gogledd Iwerddon. Roedd y dulliau ymchwil yn cynnwys arolwg, a oedd yn feintiol ei natur ond â lle ar gyfer sylwadau ansoddol, a dwy astudiaeth achos (ansoddol) er mwyn cymharu dysgu ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru gyda'r Ffindir a Gweriniaeth Iwerddon.

Datblygwyd cwestiynau ar gyfer yr arolwg gan y tîm ymchwil ar ddechrau 2021, ac fe'u mireiniwyd mewn ymgynghoriad â grŵp o randdeiliaid, a gafodd eu cynnull gan British Council Cymru. Anfonwyd yr arolygon, yn Gymraeg a Saesneg, i 182 o ysgolion uwchradd ac 13 o golegau ôl-16 yng Nghymru ym mis Mai 2021, wedi'u cyfeirio at Benaethiaid leithoedd Tramor Modern / Penaethiaid leithoedd Rhyngwladol. Cysylltodd aelod o'r tîm ymchwil â phob ysgol ar y ffôn hefyd, er mwyn annog cyfranogiad.

Gwahoddwyd ysgolion i gyflwyno un ymateb yn unig; os cafwyd mwy nag un ymateb gan un sefydliad, yr ymateb cyntaf a dderbyniwyd gafodd ei gynnwys yn ein data. Ar gyfer yr arolwg, dadansoddwyd ymatebion meintiol gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol ac ymdriniwyd â sylwadau ansoddol gan ddefnyddio dadansoddiad thematig.¹⁸

Ar ôl i'r setiau data gael eu glanhau, ac ar ôl i ddyblygiadau gael eu dileu, cafwyd y cyfraddau ymateb canlynol:

	Sail	Cyflawnwyd	% ymateb
Arolwg Penaethiaid Adrannau Ysgolion Uwchradd	182	52	28.6 %
Arolwg Penaethiaid Adrannau Colegau Ôl-16	13	11	84.6%

Tabl 1: Cyfraddau ymateb

Yn achos y ddwy astudiaeth achos, gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio mewn dau gyd-destun geo-wleidyddol gwahanol i gymryd rhan mewn cyfweiliad sain 45 munud wedi'i recordio i drafod eu profiadau, eu canfyddiadau, eu hagweddau tuag at ddarpariaeth ieithoedd yn eu cyd-destun.

Cafodd y data o'r cyfweiliadau hyn ei recordio, ei drawsgrifio, a'i ddadansoddi gan ddefnyddio dadansoddiad o gynnwys. O ganlyniad i'r casglu data hwn a'r dadansoddiad cynnwys canlynol, rydym yn cynnwys dwy astudiaeth achos yn adroddiad eleni, sy'n trafod darpariaeth dysgu ieithoedd yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Ffindir. Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos bod modd defnyddio ymagwedd amlieithog tuag at bolisi iaith; mae gan Gymru gyfle amserol i ailystyried lle ieithoedd mewn cymdeithas.

Diolch i'r ymchwilwyr blaenorol, a Dr Teresa Tinsley yn benodol, am eu cyfraniadau i'r gyfres Tueddiadau leithoedd.


Ffigurau Arholiadau Cyhoeddus

Yng Nghymru, nodwyd cwmp bach yn gyffredinol yn nifer ymgeiswyr TGAU yn y '3 Mawr', sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Rydym yn gwybod bod poblogaeth glasoed Cymru yn cynyddu rhywfaint, ac felly ni ellir priodoli unrhyw gwmp yn nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd i nifer is yn ymrestru yn yr ysgol.

Fel y gwelir yn ffigur 1, mae nifer y ceisiadau TGAU Ffrangeg a TGAU Almaeneg wedi cwmpo unwaith eto o 11% a 12% yn y drefn honno ers 2020, ond mae'n dda gweld twf cynyddol mewn Sbaeneg. Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd rydym yn ei gweld yn adroddiadau Tueddiadau Iaith Lloegr a Gogledd Iwerddon; yng Ngogledd Iwerddon, Sbaeneg bellach yw'r iaith fwyaf poblogaidd ar lefel TGAU, ar ôl i Ffrangeg fod ar y brig am lawer o flynyddoedd.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n bosib bod hyn yn rhannol oherwydd penderfyniad polisi i gynnal rhaglen ieithoedd modern gynradd mewn Gwyddeleg a Sbaeneg (ond nid Ffrangeg nac Almaeneg) yn y mwyafrif helaeth o ysgolion cynradd rhwng 2007 a 2015.

Mae'n bwysig nodi er y croesewir y twf yn Sbaeneg rhwng 2020 a 2021, mae'r darlun cyffredinol dros y chwe blynedd diwethaf wedi bod yn anghyson. Cofnodir cwmp cyffredinol yn niferoedd Sbaeneg, o ystyried bod ffigur 2021 10% yn is na ffigur 2015. At hynny, mae cyfradd y gostyngiad mewn Ffrangeg ac Almaeneg yn parhau; bydd llai na 100 o ymgeiswyr yn y ddwy iaith erbyn 2030.



Ffigur 1: Ymgeiswyr TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015 – 2021


Yn ein harolwg, soniodd un athro:

“Mae disgyblion yn ystyried arholiadau TGAU Ffrangeg a Sbaeneg i fod yn anodd iawn. Mae’n debyg fod y pwyslais [yn yr arholiad TGAU] ar ddeall manylion bach iawn a cheisio baglu’r disgyblion, yn lle canolbwyntio ar beth all y disgyblion ei gyfathrebu a’i ddeall yn gyffredinol.”

Meddai athro arall:

“Mae angen mynd i’r afael â’r dull marcio a dyfarnu graddau TGAU. Mae angen lleihau cynnwys y TGAU ar frys, fel nad yw’r disgyblion yn cael eu llethu a’u digalonni ac yn dweud mai Ffrangeg ac Almaeneg yw’r TGAU anoddaf sydd i’w cael.”

Mae Ffigur 2 yn dangos bod nifer yr ymgeiswyr TGAU mewn ieithoedd heblaw am Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg wedi gostwng yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 626 yn 2018 i ddim ond 175 yn 2021. Gellir priodoli hyn yn rhannol i’r rhwystrau yn ystod pandemig Covid-19, lle nad oedd modd i rai dysgwyr ieithoedd rhyngwladol nad oedd yn Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg (yn aml a ddysgwyd mewn ysgolion ategol) gael ardystiad.




Ffigur 2: Ymgeiswyr TGAU mewn ieithoedd nad oedd yn Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Gymraeg 2015 – 2021

Yn ein harolwg, adroddodd athrawon:

“O ganlyniad i arholiadau’n cael eu canslo yn haf 2020 a dim arbenigedd mewnol yn yr ysgol mewn ieithoedd fel Pwyleg, Tsieinëeg Mandarin ac Arabeg, nid oedd modd i rai disgyblion gael mynediad at gymwysterau yn iaith eu cartref”

“Doedd dim modd i fi drefnu arbenigwyr allanol i gefnogi addysgu ieithoedd llai cyffredin a ieithoedd cartref.”

Mae Ffigur 3 yn dangos tuedd clir o nifer cynyddol o ymgeiswyr Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith), ond gostyngiad cyffredinol ym mhob iaith ryngwladol. Mae’n bosib bod y ffaith bod Cymraeg yn bwnc gorfodol mewn ysgolion hyd at Gyfnod Allweddol 4 wedi cael effaith, er y dylid cadw mewn cof nad yw pob disgybl yn sefyll y TGAU yn Gymraeg.




Ffigur 3: Cymharu ymgeiswyr TGAU Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) a'r holl ieithoedd rhyngwladol

Mae Ffigur 4 yn dangos arwyddion calonogol, gyda nifer yr ymgeiswyr Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg oll yn cynyddu yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf. Serch hynny, mae'r ymgeiswyr ar gyfer Safon Uwch yn y '3 Mawr' yn dal i fod yn sylweddol is na'r rhai yng Ngogledd Iwerddon, lle mae poblogaeth ysgol is, ond tirlun gwleidyddol-ieithyddol gwahanol gan nad oes gan yr iaith frodorol, Gwyddeleg, statws statudol ar unrhyw gam o addysg.

Dywedodd un athro wrthym:


“Mae gorfod teithio i ysgol arall ar gyfer gwersi Safon Uwch yn rhwystro disgyblion. Mae pobl yn gweld arholiadau iaith yn anodd, a dydy'r cwrs TGAU ddim yn gwneud dim byd i annog disgyblion i barhau â'r pwnc at Safon Uwch. Mae'r arholiadau darllen a gwrando yn llawer rhy anodd, ac mae maint yr eirfa sydd angen ei dysgu yn llawer rhy fawr. Byddai dealltwriaeth a gwybodaeth well o lai o gynnwys yn llawer mwy manteisiol.”




Ffigur 4: Ymgeiswyr Safon Uwch Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015 – 2021

Yn debyg i TGAU (gweler ffigur 2), mae ffigur 5 yn dangos gostyngiad sydyn mewn ymgeiswyr ar gyfer ieithoedd heblaw am y '3 Mawr' a Chymraeg. Gellid priodoli hyn unwaith eto i bandemig Covid-19 a'r ffaith nad oedd modd i lawer o ddysgwyr ieithoedd rhyngwladol heblaw am y '3 Mawr' gael ardystiad am eu hymdrechion.

Mae Ffigur 6 yn dangos bod nifer yr ymgeiswyr Safon Uwch mewn ieithoedd rhyngwladol wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn bennaf oherwydd y cwmp mewn ieithoedd treftadol. Nid yw'r nifer cryf o ymgeiswyr Cymraeg fel pwnc gorfodol ar lefel TGAU yn parhau at Cymraeg Safon Uwch, lle mae'r niferoedd yn gymharol isel. Dim ond 2% o ymgeiswyr TGAU Cymraeg sy'n parhau at Safon Uwch. I'r gwrthwyneb, mae ieithoedd rhyngwladol yn llwyddo i drosglwyddo cyfran uwch o ddysgwyr o TGAU i Safon Uwch, tua 11%.



Ffigur 5: Ymgeiswyr Safon Uwch mewn ieithoedd nad oedd yn Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg neu Gymraeg 2015 – 2021



Ffigur 6: Cymharu ymgeiswyr Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) a'r holl ieithoedd rhyngwladol

Canfyddiadau o'r Arolwg Ysgolion Uwchradd

Proffil yr ysgolion uwchradd a ymatebodd

Ym mlwyddyn ysgol 2020/21, roedd 182 o ysgolion uwchradd gwladol yng Nghymru, ac roedd 130 ohonynt yn rhai cyfrwng Saesneg, 8 yn rhai cyfrwng Saesneg gyda llawer o Gymraeg, 17 yn rhai cyfrwng Cymraeg, a 27 yn ddwyieithog Cymraeg/Saesneg.

Mae pob ysgol uwchradd wladol yng Nghymru yn aelod o'r 22 awdurdod lleol (cynghorau), yn seiliedig ar leoliad daearyddol. Caiff awdurdodau lleol eu grwpio mewn pedwar consortia addysg i hwyluso gwelliant ysgolion, codi safonau, a chyflawni effeithlonrwydd. O ystyried y gyfradd ymateb ac i ddiogelu hunaniaeth yr ysgolion unigol a gymerodd ran, bydd yr adroddiad yn gwneud cymariaethau rhwng consortia lle bo hynny'n briodol.

Er mwyn pennu unrhyw wahaniaethau economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â dysgu ieithoedd, edrychodd y tîm ymchwil ar ganran y disgyblion ym mhob ysgol oedd â hawl i brydau ysgol am ddim.

Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reolau newydd er mwyn hawlio prydau ysgol am ddim. Oherwydd hyn, gallai nifer fach o blant a phobl ifanc fod wedi colli eu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Cyflwynwyd system "amddiffyn wrth bontio" er mwyn sicrhau y gallai'r plant a phobl ifanc hyn barhau i gael prydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig.

Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad Ysgolion Cymru ym mis Ionawr 2020, trefnwyd y cyflenwad llawn o 182 o ysgolion a wahoddwyd i ymateb i'r arolwg yn gwintellau yn ôl canran y disgyblion (hyd at 15 oed) oedd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim.

Consortia Addysg	Yn cynnwys awdurdodau lleol	Sail	Nifer yr ysgolion a ymatebodd
Y gogledd	Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam	50	14
Y de-ddwyrain a'r canolbarth	Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot	51	16
Canolbarth y de	Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd	49	14
Y de-ddwyrain	Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd	32	8

Tabl 2: Nifer yr ysgolion a ymatebodd yn ôl consortiwm addysg

	Sail cyfanswm = 182	Cyflawnwyd cyfanswm = 52	% Cyfradd ymateb i'r arolwg
Cwintel 1 – lleiaf difreintiedig	36	17	33%
Cwintel 2	37	8	15.5%
Cwintel 3	36	12	23%
Cwintel 4	37	8	15.5%
Cwintel 5 – mwyaf difreintiedig	36	7	13%

Tabl 3: Cwintelau prydau ysgol am ddim ar gyfer ysgolion uwchradd gwladol

Mae tabl 3 yn dangos bod bron i hanner yr ysgolion a ymatebwyd yng nghwintelau 1 a 2 (hynny yw yn ardaloedd mwyaf breintiedig Cymru fel y mesurwyd yn ôl nifer y disgyblion oedd â hawl i brydau ysgol am ddim). Dim ond 13% o'r ymatebion ddaeth o ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'n bosib felly bod hyd yr hyn sydd i ddilyn yn fwy ffafriol na'r realiti mewn llawer o ysgolion.

Dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3

Gofynnwn ni i'r athrawon ba ieithoedd rhyngwladol roedd y disgyblion yn eu dysgu yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae tabl 4 yn dangos canran yr ysgolion sy'n cynnig y '3 mawr' ym mhob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 3, ynghyd â lleiafrif yr ysgolion sy'n cynnig dwy iaith rhyngwladol i rai disgyblion ym mlynnyddoedd 8 a 9. Yn fras, mae'r data yn gyson â chanfyddiadau arolwg 2019, ac eithrio bod Almaeneg wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

	Ffrangeg	Almaeneg	Sbaeneg
Blwyddyn 7	79%	2%	19%
Blwyddyn 8	77%	8%	15%
Blwyddyn 9	54%	2%	17%

Tabl 4: Ieithoedd rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3

Mae Tabl 5 yn dangos y lleiafrif o ysgolion sydd yn cynnig dwy iaith rhyngwladol i rai disgyblion ym mlwyddyn 8 a 9.

	Ffrangeg	Almaeneg	Sbaeneg
Blwyddyn 8	12%	10%	10%
Blwyddyn 9	35%	15%	25%

Tabl 5: Ieithoedd rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 – ysgolion sydd yn cynnig 2 iaith i rai disgyblion

Ffrangeg yw'r iaith rhyngwladol fwyaf poblogaidd yng Nghyfnod Allweddol 3 yn dal i fod. Dim ond un iaith rhyngwladol ym mlwyddyn 7 roedd y rhan fwyaf o ysgolion a ymatebodd yn ei chynnig, ac felly nid oes data sylweddol yn Nhabl 4 ar gyfer 'Blwyddyn 7 rhai disgyblion'. Cynigir Sbaeneg ac Almaeneg mewn rhai ysgolion fel opsiwn ym Mlynnyddoedd 8 a 9. Meddai un athro a ymatebodd:

“Mae pawb ym mlwyddyn 7 ac 8 yn dysgu Ffrangeg mewn dosbarthiadau gallu cymysg. Yna, ym mlwyddyn 9 gall disgyblion ddewis os ydyn nhw am barhau gyda Ffrangeg, dechrau Sbaeneg, astudio'r ddwy neu dim un o'r ddwy.”

Gofynnwn ni i athrawon ba gyfran o'u disgyblion sy'n dysgu mwy nag un iaith rhyngwladol:

	Pob un ohonynt	Mwy na hanner	Mwy na hanner	Dim
Blwyddyn 7	11.9%	4.8%	2.4%	81%
Blwyddyn 8	14.3%	9.5%	4.8%	71.4%
Blwyddyn 9	14.3%	7.1%	19%	59.5%

Tabl 6: Cyfran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n dysgu mwy nag un iaith rhyngwladol

Meddai un athro:

“Mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cael tair gwers dros amserlen o bythefnos. Penderfynwyd ddwy flynedd yn ôl i gynnig Sbaeneg yn unig i bob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 (fel bod yr holl ddisgyblion yn cael yr un profiad ond hefyd oherwydd gostyngiad mewn niferoedd). Rydyn ni'n dilyn y dull Conti* yn gynyddol ar gyfer dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 3.”

*Mae'r 'Dull Conti' yn seiliedig ar waith Dr Gianfranco Conti. Caiff hefyd ei alw'n E.P.I. (Cyfarwyddyd Prosesu Ymestynol), sy'n seiliedig ar y syniad bod addysgu iaith mewn talpiau (e.e. lluoseiriau, cyd-leoliad, pennau brawddegau a fframiau) yn llawer mwy effeithiol nag addysgu geiriau unigol, ac mae'n fwy economaidd o ran llwyth gwybyddol, yn enwedig ar gyfer dechreuwr a lefel canolradd.

Mae nifer yr ysgolion sy'n cynnig Almaeneg wedi gostwng ers 2019. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a ymatebodd sy'n dal i'w haddysgu yng nghwintell 1, hynny yw mewn ardaloedd mwy breintiedig. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau yn adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd Lloegr a Gogledd Iwerddon 2021, lle mae rhaniad economaidd-gymdeithasol amlwg i'w weld mewn mynediad at Almaeneg.

Mae ein data'n dangos bod rhai disgyblion yn cael eu datgymhwysio rhag dysgu ieithoedd rhyngwladol ym Mlwyddyn 9; mae angen rhagor o ymchwil i ddarganfod i ba raddau.

Gofynnwn ni hefyd am ieithoedd rhyngwladol cwricwlaidd nad ydynt yn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Adroddodd pedair ysgol a ymatebodd eu bod yn gwneud darpariaeth Mandarin a/neu Eidaleg ar yr amserlen.

Amser ar gyfer ieithoedd rhyngwladol

Yn nhermau amser cynnwys ar gyfer ieithoedd rhyngwladol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dyrannu 1 – 2 awr yr wythnos drwy gydol Cyfnod Allweddol 3, a 2 – 3 awr ym Mlwyddyn 10:

	Llai nag awr	Awr neu ddwy	Dwy i dair awr	Tair i bedair awr
Blwyddyn 7	4.8%	88.1%	7.1%	0.0%
Blwyddyn 8	0.0%	90.5%	11.9%	0.0%
Blwyddyn 9	2.4%	83.3%	14.3%	4.8%
Blwyddyn 10	2.4%	23.8%	69.0%	7.1%

Tabl 7: Amser cyswllt ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 ac ym Mlwyddyn 10

Mae llawer o'r ysgolion a ymatebodd yn gweithredu amserlen bythefnos, ac weithiau roedd gan ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 fylchau mawr rhwng gwersi ieithoedd rhyngwladol. Mae gan gymwysterau TGAU oriau dysgu awgrymedig o 120 awr; felly mae'n anodd gweld sut byddai dyraniad o ddwy awr neu lai fod yn ddigonol ym Mlwyddyn 10.

Dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4

Mae'r holl ysgolion a ymatebodd a oedd â darpariaeth ieithoedd rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cynnig achrediad TGAU. Mae tair ysgol a ymatebodd hefyd yn cynnig Lefel 2 mewn Cyfathrebu Busnes Byd-eang CBAC¹⁹.

Fel y nodwyd yn adroddiadau Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2019, nid oedd dim un ysgol mewn unrhyw flwyddyn o'r arolwg lle roedd dros 75% o'r garfan yn dewis iaith ryngwladol ym Mlwyddyn 10 neu 11. Ar gyfartaledd, adroddodd athrawon fod 15% o'u disgyblion Blwyddyn 10 yn dewis iaith ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall (e.e. Lefel 2 mewn Cyfathrebu Busnes Byd-eang CBAC), gydag ystod o 0% i 40%. Yn wir, dim ond ychydig dros un ymhob pump o'r ysgolion a ymatebodd a ddywedodd nad oedd ganddyn nhw ddim un disgybl yn astudio ieithoedd rhyngwladol ym Mlwyddyn 10. Gofynnwn ni i athrawon feddwl am y dair blynedd ddiwethaf a sut roedd cyfran y disgyblion sy'n astudio iaith ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi newid (os o gwbl). Mae canfyddiadau'r athrawon yn nhabl 8 yn cadarnhau'r ystadegau cenedlaethol a ddangoswyd yn ffigur 1 yn gynharach yn yr adroddiad.

	Canran yr ysgolion a ymatebodd
Dim tuedd amlwg	27%
Llai o ddisgyblion yn dewis iaith ryngwladol	53%
Mwy o ddisgyblion yn dewis iaith ryngwladol	0%
Niferoedd tebyg i'r hyn oedd o'r blaen	20%

Tabl 8: Canfyddiadau athrawon o niferoedd y ceisiadau TGAU yn ystod y tair blynedd ddiwethaf

Pan ofynnwn ni am y rhesymau dros y gostyngiad, roedd rhain yn amrywio. Dywedodd pedair ysgol o ddeg wrthon ni oherwydd cyfyngiadau amserlen, nid oedd pob disgybl a oedd yn dymuno astudio TGAU mewn iaith ryngwladol yn cael cyfle i wneud hynny. Ysgrifennodd un athro:

“Mae'r niferoedd wedi cwmpo'n sylweddol nawr bod colofnau opsiwn Cyfnod Allweddol 4 wedi'u lleihau. Mae'r niferoedd wedi gostwng o 100 yn dewis ieithoedd rhyngwladol i 40.”


Mewn ysgol arall, roedd y rheswm dros y gostyngiad yn ymwneud â chystadleuaeth gyda'r Gymraeg:

“Gan fod Cymraeg yn orfodol, mae'r disgyblion yn teimlo eu bod nhw'n cael y sgiliau ieithyddol gofynnol o'u gwersi Cymraeg, ac nad oes angen dewis iaith ryngwladol.”

Dysgu ieithoedd rhyngwladol ôl-16 mewn ysgolion uwchradd

Nododd 46 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd nad oedd ganddyn nhw ddarpariaeth ôl-16 neu nad oedden nhw'n cynnig ieithoedd rhyngwladol yn y chweched dosbarth. Yn yr ysgolion uwchradd hynny lle cynigir ieithoedd rhyngwladol, mae traean yn cynnig y pynciau'n gyfan gwbl fewnol, ac mae'r ddau draean arall yn dibynnu ar gydweithio gyda sefydliad arall i'w darparu.

Mae maint dosbarthiadau yn dal i fod yn fach iawn yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae gan 82 y cant o ysgolion lai na phum disgybl yn nosbarthiadau iaith Blwyddyn 12; mewn rhai achosion, does gan ysgolion ddim un disgybl yn astudio ieithoedd rhyngwladol yn y grŵp blwyddyn hwn. Dim ond 18% o'r ysgolion adroddodd fod ganddyn nhw bum disgybl neu fwy yn astudio ieithoedd rhyngwladol ôl-16.



Ffigur 7: Nifer y myfyrwyr ym Mlwyddyn 12 sydd yn dysgu o leiaf un iaith ryngwladol (ysgolion sydd yn cynnig o leiaf un iaith ryngwladol).

Meddai un athro o ysgol cwintel 1 (mwyaf breintiedig):

“Mae'r profiad arholiad ar lefel TGAU yn atal llawer o ddisgyblion rhag parhau at Safon Uwch. Dydy disgyblion ddim yn dewis ieithoedd dros bynciau fel Cymdeithaseg. Yn naturiol, bydd peidio â rhedeg dosbarth oherwydd niferoedd isel yn lleihau ei bwysigrwydd. Dydy disgyblion ddim yn gwerthfawrogi pwysigrwydd iaith na'r sgiliau wrth edrych ar broffesiynau.”

Mae rhai ysgolion yn adrodd bod angen o leiaf deg disgybl er mwyn i bwnc allu rhedeg ar lefel Safon Uwch. Meddai un athro o ysgol cwintel 3:

“Mae'r gofyniad am leiafswm o 10 disgybl i redeg cwrs yn llythrennol yn ein hatal ni rhag byth rhedeg eto, pan fyddwn ni'n cael grwpiau o tua 15 ar gyfer TGAU. Dydy cadw 75% o hyn ddim yn realistig.”

Edrych ar Dueddiadau Rhyngwladol Dysgu Ieithoedd mewn Colegau Ôl-16

Dysgu ieithoedd mewn colegau ôl-16

Ymatebodd 11 o 13 coleg ôl-16 posib i'n harolwg. Adroddodd dau o'r 11 sefydliad a ymatebodd nad oedd ganddynt ddim un myfyriwr yn astudio iaith ryngwladol, er eu bod yn eu cynnig; ymatebodd y sefydliadau hyn i'r cwestiynau arolwg am ddimensiwn rhyngwladol bywyd y coleg, ac mae eu hatebion wedi'u cynnwys.

Adroddodd tri choleg fod ganddyn nhw dros 20 o fyfyrwyr yn astudio iaith ryngwladol ym Mlwyddyn 12, ac adroddodd tri choleg fod ganddyn nhw lai na phump myfyriwr. Lle mae niferoedd isel, mae dosbarthiadau'n aml yn rhedeg ar amserlen lai, neu caiff myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13 eu haddysgu mewn dosbarth cyfansawdd. Mae un coleg yn adrodd bod y niferoedd sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol wedi cynyddu dros y dair blynedd ddiwethaf, ond adroddodd pum coleg ostyngiad; mae'r colegau eraill yn adrodd niferoedd sefydlog (lle cynigir y pwnc). Pan ofynnwyd am y rheswm dros y gostyngiad, adroddodd y colegau:

“Mae Covid wedi cael effaith. Ar hyn o bryd allwn ni ddim cynnig darpariaeth yn ystod y dydd i ddysgwyr TGAU na Safon Uwch ar gyfer pob pwnc gan nad yw'n ymarferol.”

“Rwy'n meddwl bod llai yn dewis ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4 - roedd tair allan o bedair o'n hysgolion bwydo yn arfer cynnig y ddwy iaith, ond nawr dim ond un iaith maen nhw'n ei chynnig yng Nghyfnod Allweddol 4 - rwy'n meddwl yn arbennig gan fod y cynnwys a'r cyfaint mor drwm, mae disgyblion TGAU yn dewis yr hyn maen nhw'n deimlo sy'n bynciau haws.”

“Does dim llawer o ddysgwyr 16-19 oed yn dod i'r Coleg yn gobeithio parhau â iaith ryngwladol, gan fod cyn lleied ohonyn nhw wedi'u hastudio ar lefel TGAU yn yr ysgol. Does dim llawer o gymwysterau cyn TGAU ar gael i oedolion sy'n dysgu, nac i bontio'r bwlch rhwng Safon Uwch ac A2.”

Canfu adroddiad diweddar gan Ymchwil Arad (a gomisiynwyd gan ColegauCymru) gyda'r sector addysg bellach yng Nghymru, i gefnogi datblygiad cynllun rhyngwladoli strategol ar gyfer y sector, ystod o fanteision i ddysgu iaith ryngwladol. Wrth ddarparu profiad rhyngwladol i ddisgyblion, mae'r adroddiad yn nodi y dylai fod mwy o bwyslais ar gefnogi datblygu sgiliau iaith cyn, yn ystod, ac ar ôl cyfnewidfeydd. Yn aml, caiff cyfle i fanteisio'n ieithyddol ei golli. Noda'r adroddiad fod angen cefnogaeth gryfach, ac y byddai cyfeiriad gan uwch reolwyr mewn perthynas â dysgu ieithoedd rhyngwladol ar draws pob coleg ôl-16 yn fanteisiol.


Dimensiwn Rhyngwladol mewn Ysgolion Uwchradd a Cholegau Ôl-16

Mae'r adran hon yn cyfuno ymatebion gan athrawon mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 mewn perthynas â'r dimensiwn rhyngwladol mewn ysgolion. Mae'n braf adrodd bod y dimensiwn rhyngwladol yn ymddangos yn gymharol iach, er gwaethaf yr heriau a ddaeth gyda phandemig Covid-19.

Mae ein data'n dangos ymgysylltiad da iawn gyda Llwybrau at Ieithoedd Cymru²⁰, sef prosiect allgymorth cydweithredol Cymru gyfan sy'n hyrwyddo gwelededd, proffil a dewis ieithoedd mewn ysgolion, a'r Prosiect Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern²¹, sy'n annog dysgu ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU a'r tu hwnt drwy raglen fentora yn y dosbarth ac ar-lein.

Mae'r Prosiect Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern yn partneru myfyrwyr prifysgol israddedig ac ôl-raddedig gydag ysgolion uwchradd ledled Cymru i gynyddu cymhelliant dysgwyr i astudio ieithoedd a chynyddu dyheadau ar gyfer addysg uwch. Ers 2015, mae'r prosiect wedi tyfu i weithio gyda dros 100 o ysgolion, ac wedi profi llwyddiant cyson yn ôl mesuriadau adroddiadau gwerthuso annibynnol sydd ar gael ar eu gwefan.

Ar y llaw arall, dim ond 15% o'r sefydliadau a ymatebodd sydd ag ysgol bartner dramor, ac mae llai nag un ymhob deg sefydliad yn cyflogi cynorthwydd iaith. Mae 12 y cant o'r holl sefydliadau'n adrodd bod ganddyn nhw gynorthwydd Ffrangeg a/neu Sbaeneg. Mae nifer y cynorthwywyr Almaeneg a Mandarin yn isel iawn. Mae athrawon yn cyfeirio at gyfyngiadau cyllidebol fel y prif reswm dros fethu â defnyddio cynorthwywyr iaith.



Ffigur 8: Ymgysylltiad rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16


Cymwysterau yng Nghymru

Gofynnwn ni i athrawon mewn ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 ystyried y newidiadau posib i gymwysterau yng Nghymru.

Mae Ffigur 9 yn dangos bod mwyafrif sylweddol yr athrawon (68%) o blaid adolygu a diwygio TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Mae adolygiad o TGAU leithoedd Tramor Modern yn Lloegr eisoes yn mynd rhagddo. Yn 2019, ymchwiliodd Ofqual p'un a oedd TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn cael eu graddio'n fwy llym o gymharu â TGAU mewn pynciau eraill. Daethant i'r casgliad y dylid addasu safonau graddio TGAU Ffrangeg ac Almaeneg, ond nid Sbaeneg, o haf 2020 ymlaen.



Mae ein data Tueddiadau leithoedd yn dangos bod nifer tebyg o athrawon yng Nghymru hefyd yn cefnogi cynnig Cymwysterau Cymru i greu cyfres o gymwysterau bach 'gwnaed ar gyfer Cymru' mewn ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltiad a chynnydd wrth ddysgu ieithoedd. Yn ogystal, roedd hanner yr athrawon a ymatebodd yn teimlo y byddai gan eu disgyblion ddiddordeb mewn cymwysterau iaith â gogwydd galwedigaethol, er enghraifft TGAU unigol mewn Ffrangeg gyda Busnes neu TGAU mewn Sbaeneg gyda Teithio/Twristiaeth.

Gofynnwn i'r athrawon am y Cwricwlwm newydd i Gymru ac i ba raddau y bydd yn gwella sefyllfa dysgu ieithoedd rhyngwladol; mae ein data yn ffigyrau 10 a 11 yn dangos bod agweddau wedi dirywio ers 2019.



Ffigur 9: Ymatebion athrawon mewn ymateb i 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynnig Cymwysterau Cymru y dylid adolygu a diwygio pynciau TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg er mwyn sicrhau eu bod wedi'u 'gwneud ar gyfer Cymru'?

Gofynnwyd yr un cwestiwn i athrawon yn y colegau ôl-16. O'r 11 o athrawon a atebodd, dwedodd 5 fod y Cwricwlwm i Gymru'n 'debygol iawn' o wella sefyllfa dysgu ieithoedd rhyngwladol, ond dwedodd 5 arall fod hyn yn 'annhybegol iawn' ac roedd un athro heb benderfynu.



Ffigurau 10 a 11: Ymatebion athrawon i'r cwestiwn, 'Yn eich barn broffesiynol, pa mor debygol yw hi y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn gwella'r sefyllfa ar gyfer ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru gan fod ieithoedd rhyngwladol wedi'u cynnwys o dan Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu?'

Rhannu arfer da

Rhoesom gyfle i athrawon ddweud wrthym beth oedd yn gweithio'n dda yn eu hysgol, a pha arfer da gallen nhw ei rannu gydag eraill. Mewn sylwadau ansoddol, ysgrifennodd athrawon â brwdfrydedd am effaith gadarnhaol ymgysylltu â Llwybrau at Ieithoedd Cymru a'r Prosiect Mentora Ieithoedd Tramor Modern, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dwywedodd llawer o athrawon wrthym eu bod wedi bod yn canolbwyntio ar eu haddysgeg ac wedi dechrau defnyddio gwaith ieithyddion cymhwysol, fel Dr Gianfranco Conti. Mae athrawon yn meddwl yn fwy dwys am *sut* mae plant yn dysgu ieithoedd, ac yn addasu eu haddysgu i ystyried theorïau addysg ail iaith yn fwy. Meddai un athro:

"Yn Ffrangeg, rydyn ni'n defnyddio Cyfarwyddyd Prosesu Ymestynnol ac adeiladwyr brawddegau fel dull dysgu newydd. Gan fod llai o amser yn y cwricwlwm, roedden ni'n teimlo bod angen mwy o ffocws ar ddatblygu hyder. Mae disgyblion yn ymateb yn dda, ac rydyn ni'n gallu gweld bod eu dysgu'n gwella. Gobeithio y bydd hyn yn cael effaith ar eu dewisiadau opsiynau flwyddyn nesaf."

Er mwyn gwella dysgu ieithoedd ymhellach, dywedodd athrawon fod angen cyllid i alluogi ieithoedd rhyngwladol i dyfu yng Nghymru. Meddai un athro:

"Byddai caniatáu i ddosbarth redeg waeth beth yw'r niferoedd yn cynyddu'r canfyddiad o bwysigrwydd ac yn caniatáu i'r disgyblion hynny barhau â'r daith y dechreuon nhw. Mae'n teimlo'n annheg tarfu ar eu profiad dysgu iaith am resymau ariannol."

Gofynnodd athrawon hefyd am gyllid ar gyfer ymgyrch genedlaethol ar ddysgu ieithoedd, ynghyd â rhoi cyngor gyrfaol cadarn i ddisgyblion am y drysau niferus y gall dysgu ieithoedd eu hagar.

Astudiaethau Achos

Yn yr adran hon, rydym yn trafod addysg ieithoedd yn y Ffindir a Gweriniaeth Iwerddon. Fel Cymru, mae ieithoedd ac amlieithrwydd yn nodwedd bwysig yn y Ffindir a Gweriniaeth Iwerddon. Cynhaliom astudiaethau achos disgrifiadol yn y ddau ranbarth hwn er mwyn cyfleu darpariaeth dysgu ieithoedd mewn cyd-destunau rhyngwladol. Mae pob astudiaeth achos yn cynnwys disgrifiad o'r cyd-destun polisi, ac yna trafodaeth am astudiaethau allweddol, eglureb o arloesiadau, a safbwyntiau ymarferwyr y cyfwelwyd â nhw o'r ddau ranbarth.

Y Ffindir

Cyd-destun Polisi

Mae'r Ffindir yng ngogledd Ewrop ar hyd Gwlff Bothnia, ac mae'n rhannu ffiniau tir â Norwy, Sweden a Rwsia. Ar ôl canrifoedd o gael eu rheoli gan Sweden, ac yna integreiddio ag Ymerodraeth Rwsia, datganodd y Ffindir annibyniaeth ym 1917.²² Yn dilyn rhyfel cartref, sefydlodd Deddf Cyfansoddiad 1919 weriniaeth seneddol.²³ Ymunodd y Ffindir â'r Undeb Ewropeaidd ym 1995.²⁴

Mae'r ddwy iaith genedlaethol, Ffinneg a Swedeg, yn gyfartal yn gyfansoddiadol,²⁵ ac mae hyn wedi'i nodi yn y Ddeddf Iaith.²⁶ Trefnir Addysg Sylfaenol ar wahân ar gyfer plant sy'n siarad Ffinneg a Sweden,²⁷ gyda darpariaethau arbennig ar gyfer y Sami, Roma a grwpiau brodorol eraill.²⁸ Yn ôl cofrestriadau geni, mae 87% o'r boblogaeth yn siarad Ffinneg, 5% yn siarad Swedeg, a llai nag 1% yn siarad Sami.²⁹

Mae'r Ffindir ymhlith y cenhedloedd sy'n sgorio orau yn y byd am lesiant mamau a phlant; addysg, sgiliau a llythrennedd; busnes ac arloesedd; cydraddoldeb rhywedd ac egwyddorion democrataidd.³⁰ Mae addysg yn rhan hanfodol o wladwriaeth les y Ffindir.³¹ Mae tegwch a chydraddoldeb yn egwyddorion allweddol i system addysg y wladwriaeth,³² sy'n cynnwys Addysg a Gofal Cynnar (0 – 6 oed); Cyn-Cynradd (6 oed) ac Addysg Sylfaenol (7 – 15 oed); Addysg Uwchradd Gyffredinol (16+); Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (16+), a phrifysgolion.³³

Ymestynnwyd addysg orfodol yn ddiweddar o chwech oed i ddeunaw.³⁴ Mae'r Ddeddf Addysg Sylfaenol yn deddfu ar gyfer cwricwlwm craidd cenedlaethol unedig a dyraniad amser i bynciau a bennir gan y llywodraeth.³⁵ Mae Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir yn gosod cynnwys craidd lle gall darparwyr ddatblygu eu cwricwla eu hunain ohono.³⁶

Yn ystod Addysg Sylfaenol, mae disgyblion yn astudio'r ddwy iaith genedlaethol ac o leiaf un iaith ychwanegol. Yn achos 90% o ddisgyblion, y brif iaith dramor – a'r unig un yn aml – yw Saesneg, a dim ond un ymhob pump sy'n astudio ieithoedd ychwanegol.³⁷ Ar lefel addysg uwchradd gyffredinol, astudiodd 99.7% o'r disgyblion Saesneg a 91.9% Swedeg yn 2019. Roedd y ffigur ar gyfer pob iaith ychwanegol yn is na 15%; gan gwmpo i lai na un y cant mewn ysgolion galwedigaethol.³⁸ Mae Prosiect Allweddol y Llywodraeth ar gyfer Ieithoedd yn ceisio amrywio'r dewis ieithyddol a chyflwyno dysgu ieithoedd yn gynharach.³⁹ O 2020 ymlaen, bydd yr iaith ychwanegol gyntaf yn cael ei chyflwyno'n gynharach yn y cwricwlwm, erbyn blwyddyn un fan bellaf.⁴⁰

DARPARIAETH DYSGU IEITHOEDD: MEWNWELEDIADAU AC ARLOESIEDD

Cwricwlwm 'iaith-gyfeillgar'

Mae dwy nodwedd allweddol i gwricwla'r Ffindir sydd eisoes yn hwyluso dysgu ieithoedd. Yn gyntaf, mae ffocws ar ddull integreiddiol, hynny yw dull sy'n blaenoriaethu perthnasau a chysylltiadau ar draws gwahanol bynciau.⁴¹ Yn ail, mae ffocws amlwg ar fod yn ymwybodol o ieithoedd, gan gydnabod pwysigrwydd iaith mewn addysg ac mae'r holl athrawon yn cael eu hystyried fel athrawon iaith. Fel y trafododd ein cyfweleion:

“Rwy’n credu ei bod hi’n eitha’ anhygoel cymaint mae iaith yn rhan o gwricwlwm y Ffindir, drwyddo draw, a bod plant yn dysgu Ffinneg, Swedeg ac un iaith dramor. Felly, mae’r ffaith bod hyn yn bosib yn anhygoel.”

“Dydy dysgu ieithoedd ddim yn rhywbeth ar wahân... Ond mae’n rhan o weithgarwch bob dydd - gweithgareddau, ac nid yn y dosbarth iaith yn unig, ond mewn dosbarthiadau eraill.”

Mae’r angen hwn i fod yn ymwybodol o iaith a’r brwdfrydedd dros ddatblygu addysg amlieithog hefyd i’w weld mewn astudiaeth o dros 800 o athrawon yn y Ffindir sy’n adrodd bod athrawon yn meddu ar safbwyntiau cadarnhaol yn bennaf ynghylch amlieithrwydd.⁴²

Creu profiadau iaith cynnar i gynnal dysgu iaith

Yn 2017, archwiliodd nifer o brosiectau rhanbarthol a ariannwyd gan y wladwriaeth ddulliau o ddysgu ieithoedd yn gynnar ac addysg amlieithog, gan gynnwys cawodydd iaith.⁴³ Dyma ddull addysgu iaith sy’n cael ei ddefnyddio yn y Ffindir ers degawd, ac mae’n cynnig ‘cyffyrddiad mwy ysgafn’ wrth ddysgu iaith na dulliau trochi yn y blynyddoedd cynnar. Ei nod sylfaenol yw creu profiadau cadarnhaol gyda ieithoedd i blant, a gosod llwybr clir ar gyfer agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ieithoedd dilynol. Mae adnoddau fideo o athrawon yn trafod y dull hwn ar gael yn Saesneg.⁴⁴

Ymddengys bod dulliau o’r fath mewn addysg gynnar ieithoedd yn cynyddu ac yn amrywio’r nifer sy’n dewis astudio ieithoedd. Trafododd un o’n cyfweleion raglen cawodydd iaith lle roedd plant yn profi iaith wahanol bob saith wythnos. Arweiniodd hyn at gynnydd amlwg yn nifer y disgyblion oedd yn dewis astudio ieithoedd newydd.

“Byddan nhw [y plant] wedi cael saith wythnos o Swedeg, yna Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Tsieinëeg, Saesneg. Doedd dim adroddiadau o’r plant yn cael eu llethu neu’n drysu. Rwy’n cymryd bod hynny’n rhannol gan y byddan nhw’n gwneud gweithgareddau tebyg. Felly, byddan nhw’n gwneud lliwiau yn yr holl ieithoedd gwahanol yma, ac mae defnyddio gweithgareddau rheolaidd yn golygu bod modd i’r plant ymdopi - deall beth maen nhw’n ei wneud, waeth beth yw’r iaith. Ond cafodd hynny effaith wych mewn gwirionedd. Rwy’n credu y dewisodd hyd at 27% o’r plant ieithoedd heblaw am Saesneg fel eu hiaith dramor gyntaf. Roedd yn ddatblygiad hyfryd.”

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith y gellid tybio y byddai mentrau o'r fath yn cyflwyno heriau, ond maen nhw hefyd yn gallu mynd yn groes i rai disgwyliadau:

“Mae athrawon wedi’u synnu gan yr hyn gall y plant ei wneud. Rwy’n credu y gall llawer [o athrawon] gael eu dychryn ychydig, “Beth allwn ni ei wneud gyda’r plant?” a “Dydy ein hiaith ni ddim yn dda iawn” a “Dydyn ni heb gael hyfforddiant addysgeg i wneud hyn.” Ond... yna, maen nhw’n dechrau cydnabod, gallwn ni wneud pethau sylfaenol iawn... fel y tywydd, cyfarchion, a bwydlen y dydd, a dechrau chwarae gyda’r iaith, ac maen nhw’n sylweddoli eu bod nhw’n gallu gwneud cymaint. Ac fel arfer, mae’r plant yn eitha’ brwdfrydig. Felly rwy’n credu ei fod wedi synnu athrawon pa mor barod a galluog yw’r plant. Mae pobl wedi bod yn betrus am blant sy’n dysgu Ffinneg fel ail iaith, i’w cynnwys nhw. Ond rwy’n credu erbyn hyn fod pobl wedi sylweddoli bod y plant yma fel arfer yn ymdopi’n eitha’ da pan fydd iaith arall yn cael ei chyflwyno. Dydy hyn ddim yn ei gwneud hi’n anoddach.”

Mae tystiolaeth o'r arloesiadau a'r gweithgareddau a ddefnyddir yng nghyd-destun addysg y Ffindir hefyd i'w gweld yn yr ymchwiliad a gynhaliwyd drwy'r 'IKI project: the Innovative Map and Compass for Language Education'.⁴⁵ Mae hwn yn cynnwys canllaw ar addysg iaith-ymwybodol mewn pynciau a gweithgareddau anieithyddol yn y ddeialog rhwng athro a disgybl. Nid yn unig y mae hyn yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrar eu proses eu hunain o ddysgu iaith, ond mae hefyd yn cefnogi athrawon gyda'r gwaith o gynllunio addysg iaith.

Proffesiynoldeb athrawon a chydweithio cynyddol

Ystyrir addysgu fel proffesiwn gwerthfawr iawn yng nghyd-destun y Ffindir, ac un lle nad oes profion safonedig yn digwydd yn aml. Rhoddir ffydd mewn athrawon a chânt eu hannog i greu deunyddiau a meithrin ymagweddau newydd tuag at gyflwyno amcanion addysgol yn eu cyd-destunau eu hunain.⁴⁶ Mae ymchwil yn dangos bod athrawon iaith yn y Ffindir yn cymryd rôl weithredol iawn wrth geisio mynd i'r afael â'r mater o brinder amrywiaeth yn yr ieithoedd a gaiff eu hastudio, gan nodi bod parodrwydd ac ymrwymiad athrawon wedi dod yn hanfodol yn y broses o droi'r llanw a sicrhau llwyddiant mewn dysgu ieithoedd tramor.⁴⁷ Serch hynny, gall hyn ddod â chost unigol sylweddol wrth i athrawon weithio y tu allan i'w contractau, am ddim, er mwyn annog pobl i astudio'r ieithoedd maen nhw'n eu haddysgu ac i gynnal ymrwybyddiaeth ohonynt.

“Mewn egwyddor, mae yna lawer o ieithoedd yn cael eu cynnig, ac mae yna hefyd lawer o ieithoedd yn cael eu cynnig ar wahanol lefelau, a hyd y dysgu. Felly rwy’n credu bod y math yma o gyfoeth yn dda iawn. Mae’n gyfoeth o ddarpariaeth. Ond... a yw’n cael ei wireddu yn sefyllfa ariannol y bwrdeistrefi sy’n gyfrifol am addysg? Gan amlaf does ganddyn nhw ddim o’r adnoddau i gynnig llawer o addysgu ieithoedd.”

Yn ein cyfweiliadau, trafododd y cyfranogwyr enghreifftiau o lle byddai athrawon ieithoedd yn cydweithio i daclo rhai o'r problemau hyn drwy gyfuno adnoddau i gynnig darpariaeth iaith gyfoethog neu geisio ffyrdd newydd o gyfateb yr adnoddau i angen:

“Er enghraifft, cynigir Rwsieg yn yr ysgol cyfrwng Ffinneg a chynigir Ffrangeg yn yr ysgol cyfrwng Swedeg, ac felly agoron nhw'r cyrsiau ar gyfer y ddwy ysgol. Felly pe bai disgybl yn yr ysgol cyfrwng Swedeg am astudio Rwsieg, gallen nhw fynd i'r trac Ffinneg i ddysgu Rwsieg a gwneud yr un peth gyda'r iaith arall o'r cyfeiriad arall. Rwy'n credu bod hynny'n enghraifft wych o ddefnyddio'r adnoddau; mae sawl iaith a gynigir a gall y disgyblion a'r rhieni ddewis”

“[...] gan fod y math yma o addysgu o bell wedi bod yn cynyddu, gallai'r ieithoedd (ychwanegol) yma gael eu haddysgu hefyd, gyda'r disgyblion yn yr ysgol, ond yr athrawon yn rhywle arall, ac yna maen nhw'n rhyw fath o, ymgasglu ar-lein. Mae wedi cael ei wneud yn barod i ryw raddau, ond rwy'n credu erbyn hyn bod yr offer yn well nag o'r blaen.”

Trafodwyd cydweithio cynyddol rhwng gwahanol athrawon iaith gan ein cyfweleion hefyd, fel nodwedd sy'n dod i'r amlwg o arfer proffesiynol cyfoes ac addysg athrawon –datblygiad a oedd yn cael ei ystyried fel rhywbeth cadarnhaol iawn:

“Rwy'n credu bod rhyw fath o symudiad yn y ffordd mae athrawon gwahanol ieithoedd yn gweld ei gilydd fel addysgwyr iaith. Felly dim athro Ffrangeg yn unig ydw i, neu athro Almaeneg yn unig, gyda Saesneg draw fan yna, ond cydnabod y gallwn ni i gyd gael budd o gydweithio. Rwy'n credu bod llawer mwy o gydweithio rhwng ieithoedd, yn hytrach na chystadleuaeth.”

“Gobeithio y bydd hynny'n digwydd mwy yn y Ffindir, fel bod athrawon gwahanol ieithoedd yn gweld eu bod nhw mewn gwirionedd yn adeiladu rhywbeth gyda'i gilydd, yn hytrach nag adeiladu eu darnau bach eu hunain ar wahân. Gallwch dorri'r rhwystrau rhwng pynciau a gofodau a phobl, a gallwch gydweithio a gwneud pethau newydd gyda'ch gilydd.”

Mae gweithio ar draws pynciau gyda dull integredig hefyd i'w weld yn addysg athrawon iaith, sy'n ymgorffori sawl ymagwedd tuag at addysg iaith, gyda chyfleoedd i arsylwi a chynnal arfer addysgu gan ddefnyddio Dysgu Cynnwys ac Iaith Integredig (CLIL).⁴⁸

Mae arwyddocâd cydweithio hefyd i'w weld yn amlwg mewn darpariaeth dysgu ieithoedd yn yr ail astudiaeth achos: Gweriniaeth Iwerddon.

Gweriniaeth Iwerddon

Cyd-destun Polisi

Wedi'i lleoli yng Nghefnfor Gogledd yr Iwerydd, mae gan ynys Iwerddon ddwy awdurdodaeth geowleidyddol: mae chwe sir yng Ngogledd Iwerddon yn ffurfio rhan o'r Deyrnas Unedig ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon; mae Gweriniaeth Iwerddon wedi symud tuag at annibyniaeth oddi wrth y Deyrnas Unedig drwy sefydlu Gwladwriaeth Rydd Iwerddon ym 1922, ac mae wedi bodoli yn ei ffurf wleidyddol bresennol ers Deddf Gweriniaeth Iwerddon 1948. Mae wedi bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ers 1973, ac mae'n gweithredu democratiaeth seneddol dwysiambraeth gydag arlywydd a gaiff ei ethol yn uniongyrchol fel pennaeth y wladwriaeth.

Mae Erthygl 8 Cyfansoddiad Iwerddon yn sefydlu Gwyddeleg fel 'iaith genedlaethol' a 'iaith swyddogol gyntaf' Gweriniaeth Iwerddon, gan gydnabod Saesneg fel 'ail iaith swyddogol'.⁴⁹ Er bod y Wyddeleg wedi bod yn iaith swyddogol lawn yn yr Undeb Ewropeaidd ers 2007 mewn egwyddor, mae rhanddirymiad wedi cyfyngu ar ei defnydd yn ymarferol. O 1 Ionawr 2022, bydd y Wyddeleg yn cael statws iaith weithio lawn.⁵⁰

Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol 2003 yn sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu drwy'r Wyddeleg.⁵¹ Mae'r Bil Ieithoedd Swyddogol (Diwygio) yn cynyddu'r ddarpariaeth hon, gyda'r nod y bydd 20% o recriwtiaid newydd gwasanaethau cyhoeddus yn siaradwyr Gwyddeleg.⁵² Gelwir ardaloedd lle caiff y Wyddeleg ei chydnabod yn swyddogol fel y brif iaith gymunedol yn y Gaeltacht, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gaeltacht 2012.⁵³ Mae UNESCO yn rhestru'r Wyddeleg fel 'mewn perygl yn bendant'⁵⁴ ac yn ôl cyfrifiad 2016, dim ond 21.4% o boblogaeth y Gaeltacht sy'n siarad Gwyddeleg bob dydd,⁵⁵ cwmpo o 11 y cant mewn pum mlynedd.⁵⁶

Mae addysg orfodol rhwng 6 a 16 oed. Yn dilyn chwe blynedd o addysg gynradd, rhennir yr ail lefel i i'r Cylch Iau tair blynedd a Chylch Hŷn dwy neu dair blynedd, gyda Blwyddyn Drosoglwyddo ddewisol.⁵⁷ Cyfrwng Saesneg yw'r rhan fwyaf o ysgolion; ond y Wyddeleg yw'r iaith weithio yn y Gaeltacht ac mewn ysgolion cyfrwng Gwyddeleg, y'u gelwir yn Gaelscoileanna.⁵⁸

Mae Gwyddeleg a Saesneg yn bynciau craidd ar lefel gynradd ac ôl-gynradd, gyda meysydd llafur yn cael eu cynnig ar gyfer Gwyddeleg L1 a L2.⁵⁹ Mae'n rhaid i ysgolion ôl-gynradd ddarparu cyrsiau ieithoedd tramor modern, ond nid oes rhaid i'r disgyblion eu hastudio. Er nad yw'n orfodol cael ardystiad mewn Saesneg, Gwyddeleg nac ieithoedd eraill ar unrhyw lefel, mae pob cwrs gradd ym Mhrifysgolion Cenedlaethol Iwerddon yn gwneud Tystysgrif Adael neu gyfwerth mewn Saesneg a Gwyddeleg yn orfodol. Mae hefyd yn rhaid cael trydedd iaith ar gyfer llawer o raglenni gradd.⁶⁰

Languages Connect⁶¹ yw strategaeth Iwerddon ar gyfer ieithoedd modern mewn addysg (2017-2026). Gyda phedair nod allweddol, mae ei thargedau'n cynnwys: cynyddu hyfedredd iaith drwy amgylcheddau dysgu gwell; amrywio pa ieithoedd a ddysgir; mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd, a mwy o ymgysylltiad â chyflogwyr mewn perthynas â dysgu ieithoedd a'r defnydd o ieithoedd masnach.

DARPARIAETH DYSGU IEITHOEDD: MEWNWELEDIADAU AC ARLOESIEDD

Normaleiddio dysgu ieithoedd

Mae'r polisi ieithoedd i bawb cyfredol a'r trefniadau gweithredu priodol yn ceisio adeiladu ar sylfeini iaith presennol yng nghyd-destun Gwyddeleg, hynny yw traddodiad o ddysgu ieithoedd, dwyieithrwydd mewn cyd-destunau addysg gynradd, a ieithoedd cymunedau mudol newydd. Canfu ymchwil ar safbwyntiau ar amlieithrwydd yng Ngweriniaeth Iwerddon dystiolaeth o agweddau cadarnhaol at amlieithrwydd cynyddol mewn lleoliadau dinesig⁶² ac mae enghreifftiau o raglenni addysg gychwynnol athrawon yn paratoi athrawon ar gyfer dosbarthiadau amlieithog.⁶³ Canfu arolwg diweddar a gynhaliwyd gyda rhieni am eu safbwyntiau o'u plant yn dysgu ieithoedd y byddai rhieni'n annog eu plant i ddysgu iaith dramor, a'u bod yn ei ystyried yn 'sgil bywyd werthfawr'.⁶⁴ Gyda mentrau codi ymwybyddiaeth parhaus⁶⁵ a sylwebaeth gyhoeddus yn tynnu sylw at y ieithoedd niferus a siaredir yng Ngweriniaeth Iwerddon,⁶⁶ meddai yn cyfwelai am gyd-destun Iwerddon:

“Dw i'n credu bod angen normaleiddio dysgu ieithoedd, dylai fod yn rhan o'r cwricwlwm o'r blynyddoedd cynnar iawn, a dylai fod yn ystod y blynyddoedd cyn ysgol... dylai'r syniad o fod â iaith dramor gael ei normaleiddio cymaint nes ei fod yn rhan o'r cwricwlwm rheolaidd o'r dechrau un. Dw i'n credu, mae angen cydnabod bod angen iaith fodern ar bob person sy'n rhan o addysg ein plant... os ydyn ni'n edrych ar gyrsiau addysg athrawon cynradd hyd yn oed, dylen nhw [athrawon dan hyfforddiant] fod yn dysgu sut i addysgu iaith dramor fel rhan o'u rhaglen addysg gychwynnol.”

Yn system addysg gyhoeddus Iwerddon, mae darparwyr paratoi am brofion y tu allan i oriau ac arholiadau, y'u gelwir yn 'grind schools' neu 'grinds' yn nodwedd amlwg ym mywydau pobl ifanc.⁶⁷ Ochr yn ochr â natur anorfodol dysgu ieithoedd modern yn y cwricwlwm, mae potensial y bydd y ddarpariaeth a'r nifer sy'n dewis astudio ieithoedd yn gostwng. Serch hynny, mae mentrau i annog disgyblion ôl-gynradd uwch a cholegau gynnal eu sgiliau iaith. Fel y nododd ein cyfweleion:

“[...] rydyn ni wedi bod yn canolbwyntio'n fwy ar yr elfen hwyl o ddysgu ieithoedd a cheisio rhoi mwy o wybodaeth ar gael ar fanteision dewis iaith yn y coleg. Fe greon ni chwiliwr cyrsiau, er enghraifft, lle gall disgyblion ddod o hyd i unrhyw gwrs sydd ar gael yn Iwerddon sy'n cynnig iaith dramor fel rhan o'r radd.”

“[...] wyddoch chi, efallai bod gan bobl y syniad os nad ydych chi'n dewis iaith bur, yna allwch chi ddim dewis unrhyw iaith, ac rydyn ni wedi bod yn ceisio annog y syniad bod dysgu iaith gydag unrhyw gwrs yn ddefnyddiol.”

Mae integreiddio ieithoedd a'u dysgu i fywyd bob dydd lleoliadau ysgol yn cyfrannu at 'normaleiddio' dysgu ieithoedd. Un fenter a drafodwyd yn ein cyfweliadau oedd sefydlu digwyddiadau lleol bach i hyrwyddo dewis astudio ieithoedd. Cynhaliwyd y rhain yn adeiladau ysgolion, yn hytrach na mewn ffeiriau mawr neu safleoedd cynadledda, ac fel y dywedodd un cyfwelai:

“Fe welon ni ei fod yn gweithio'n llawer gwell, achos roedd y disgyblion yn mynd i mewn i'r digwyddiad, yn lle mynd ar y bws a gadael yr ysgol a neb yn gwybod amdano. Nawr maen nhw'n aros yn eu hysgol, ac mae pawb arall yn gweld beth maen nhw'n ei wneud.”

Mae adroddiad diweddar ar ansawdd arfer ieithoedd tramor modern mewn ysgolion⁶⁸ yn dangos mwy o enghreifftiau o hyrwyddo dysgu ieithoedd mewn ysgolion a chryfhau ieithoedd cartref. Mewn un menter o'r fath, gwahoddir disgyblion i greu llyfrau 'Meddwl a Siarad' yn cynnwys lluniau o'r pynciau maen nhw'n eu hastudio yn y dosbarth. Yna, mae'r disgyblion yn mynd â nhw gartref i hwyluso trafodaeth rhwng rhieni a phlant ar y pwnc maen nhw'n ei astudio yn yr ysgol yn eu hiaith gartref.

Cynnal amrywiaeth darpariaeth ieithoedd

Er mwyn cynyddu amrywiaeth darpariaeth ieithoedd, yn 2020 galluogodd yr Adran Addysg a Sgiliau (yr Adran Addysg bellach) ysgolion i fanteisio ar gyllid i uwchsgilio ac adnewyddu sgiliau iaith athrawon.⁶⁹ Mae mentrau ariannu eraill yn cynnwys dyrannu athrawon ychwanegol i ysgolion sy'n dymuno cynnig iaith newydd, a chefnogaeth ar gyfer cyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus. Er enghraifft, gyda nifer uwch o gynorthwyr ieithoedd tramor mewn ysgolion a dosbarthiadau, trafododd un o'n cyfweleion hyfforddiant i athrawon ar sut i gefnogi eu cynorthwyr ieithoedd tramor orau. Arweiniodd hyn at gynnwys cynorthwyr iaith yn y gwaith o ddatblygu adnoddau digidol a rennir ar gyfer yr ystafell ddosbarth.⁷⁰

Lle mae cymhellion ar gyfer amrywio, mae'n glir bod ymarferwyr am wneud y gorau o'r adnoddau ar gyfer yr hirdymor a chreu mynediad at ieithoedd i bawb. Dywedodd un o'n cyfweleion:

“Fe gawson ni gyllid hefyd i wneud gwaith ar ddarparu adnoddau a chefnogaeth i athrawon, tiwtorialau ar dechnolegau digidol, gweithdai ar sut i wneud amgylchedd y dosbarth yn fwy diddorol... teclynnau amrywiol i athrawon i'w helpu nhw yn eu harfer... sut i roi'r ieithoedd newydd ar waith. Rydyn ni hefyd yn cyflwyno dysgu cyfunol, felly rydyn ni'n chwilio am gyfleoedd i ddisgyblion sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell. Efallai nad oes ganddyn nhw fynediad at athro.”

Yn ogystal â chynnal effaith y mentrau, mae pwyslais clir ar ddefnyddio'r adnoddau hynny i adeiladu'n well ar gyfer cymuned ehangach.

Datblygu Cymunedau o Arfer

Daw un enghraifft o ddatblygu Cymunedau o Arfer yn uniongyrchol gan Post-Primary Languages Ireland (PPLI), a lwyddodd yn 2020 i gysylltu 600 o athrawon â Chymunedau o Arfer i rannu syniadau a phrofiadau o ddefnyddio adnoddau.⁷¹



Delwedd 1: Athrawon yn cynhyrchu syniadau mewn Cymuned o Arfer yng Ngweriniaeth Iwerddon - Ffynhonnell: PPLI 2020:21

Nid yw cydweithio a/neu ddatblygu Cymuned o Arfer bob amser yn ddigwyddiad allanol ffurfiol. Mae hefyd achosion, fel rhai yng nghyd-destun y Ffindir, lle mae addysgwyr ieithoedd, waeth pa iaith/ieithoedd maen nhw'n eu haddysgu, yn dod ynghyd i ffurfio cysylltiadau gyda'i gilydd yn yr un ysgol a chreu rhywbeth sy'n fwy na'u gwaith eu hunain. Er enghraifft, fel a ddisgrifir yng nghyd-destun Iwerddon:⁷²

“Mewn un ysgol ôl-gynradd gyd-addysgol, roedd cysondeb yr arfer ar draws gwersi Ffrangeg a natur hynod drefnus yr athrawon yn yr adran Ffrangeg wir yn gryfder. Roedd y gwersi'n cynnwys gweithgareddau pwrpasol wedi'u rheoli'n dda a oedd yn annog lefelau dysgu dwys. Anogwyd dysgu gweithredol hefyd drwy waith mewn parau a grwpiau, er enghraifft byddai ystafelloedd dosbarth yn cael eu gosod mewn ffurfiannau a oedd yn galluogi'r disgyblion i gydweithio'n hawdd gyda'i gilydd. Yn ogystal, roedd yr athrawon Ffrangeg yn gweithio'n agos gyda'r athrawon Almaeneg, a ffurfiwyd un adran ieithoedd Tramor Modern. Sefydlodd yr adran honno gysylltiadau gyda'r Adran Wyddeleg hefyd.

[...]

Arweiniodd dealltwriaeth gyfunol yr athrawon o'u maes pwnc, a'u parodrwydd i ddysgu gan ei gilydd ac i gydweithio, at sefydlu adran bwnc hynod effeithiol. Yn ogystal, roedd cefnogaeth yr uwch dîm rheoli tuag at Ffrangeg, gan gynnwys dyraniad amser priodol i'r pwnc, a'r gwersi wedi'u lleadaenu'n dda dros yr wythnos, yn sicrhau amser cyswllt rheolaidd gyda'r pwnc i'r disgyblion.”

Mae Cymunedau o Arfer, rhwydweithio, a'r math o fentora sy'n meithrin y mentor a'r mentorai hefyd i'w gweld yn rhai o'r rhaglenni addysg i athrawon Gwyddeleg:

“Mae system fentora'n rhan o'r peth. Felly pan fydd rhywun yn gwneud y [rhaglen addysg i athrawon], mae mentor yn cael ei ddynodi iddyn nhw, sy'n ymweld â'u dosbarth ac yn arsylwi arnyn nhw'n addysgu ac yn cofnodi eu haddysgu, ac yna'n eu helpu i ddadansoddi eu haddysgu eu hunain a llunio cynllun datblygu ar gyfer eu haddysgu, ac yn y blaen. Dw i'n meddwl mai dyna yw rhan fwyaf cyfoethog y rhaglen mewn ffordd.

Ond mae hefyd yn effeithio ar y rhai sydd bellach yn fentoriaid ar y rhaglen, mae'n eu cadw nhw'n ffres hefyd. Felly, mae yna lawer o bobl sy'n addysgu Gwyddeleg ar y drydedd lefel, sydd, trwy eu hymwneud fel mentoriaid dw i'n meddwl, fwy na thebyg wedi cael effaith ar eu harfer eu hunain.

...ac mae wedi creu rhwydwaith mewn ffordd. Mae'r rhan yna yn bwysig hefyd. Hynny yw, agwedd rhwydwaith y peth. Mae yna lawer o bobl sydd wedi mynd trwy'r rhaglen sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd erbyn hyn. Byddai'r bobl sydd wedi gwneud y cwrs ac sydd wedi gwneud yn dda iawn yn cael eu gofyn i ddod yn ôl i fod yn fentoriaid, ac felly mae gyda chi'r rhwydwaith yma o athrawon, neu ryw fath o gymuned o arfer, sy'n adeiladu dros amser.”

Sylwadau Cloi yr Astudiaethau Achos

Mewn llawer o'r gwahanol gyd-destunau ieithyddol a diwylliannol ar draws y byd mae mynegiadau cymunedol a rennir i gyfleu'r cysyniad o weithio ar y cyd er budd cymdeithasol. Yn Ffinneg, yr ymadrodd yw 'talkoo(t)';⁷³ ac yng Ngwyddeleg, 'meitheal', fel y disgrifiwyd gan un o'n cyfweleion:

“[...] dywedwch er enghraifft fod rhywun yn sâl, a dywedwch fod un o'r cymdogion yn sâl, neu os oes rhywun wedi marw, neu rywbeth fel yna, byddai'r gymuned gyfan yn dod at ei gilydd i aredig caeau'r person hwnnw ...[meitheal] yw'r gair a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer y math yna o gydweithio. Mae'n debyg, bron, i gydweithio anhunanol cymuned yn dod at ei gilydd i wneud rhywbeth, hynny yw, heb gael dim byd ohono, heblaw eu bod nhw'n rhan o'r gymuned. Gwasanaethu mewn ffordd... mae'n weithred o wasanaeth, am wn i, gan y gymuned, er budd y gymuned.”

Felly, ymddengys o'r dysgu yn y ddau gyd-destun gwahanol hwn bod yr elfen hon o 'talkoot' a 'meitheal' yn cyfrannu at lwyddiant a gwytnwch y ddarpariaeth ieithoedd a'r dysgu ieithoedd yn wyneb amgylchiadau heriol.

Casgliad

Yn 2015, daeth adroddiad cyntaf Tueddiadau leithoedd Cymru i'r casgliad:

I atal dirywiad syfrdanol leithoedd Tramor Modern mewn ysgolion ledled Cymru ac i roi sylw i'r canfyddiad cyffredinol nad yw ieithoedd yn bwysig nac yn ddefnyddiol iawn, bydd angen gweithredu unedig ar y lefel uchaf, er mwyn rhoi sylw i'r heriau systemig/strwythurol y mae ysgolion yn eu hwynebu ac i ddechrau mynd i'r afael ag agweddau cymdeithasol annefnyddiol sydd wedi hen galedu.

Er bod 2021 wedi gweld rhai arwyddion cadarnhaol, gydag ysgolion yn cynnal ymgysylltiad cyson â phrosiectau rhyngwladol a chynnydd bach yn yr ymgeiswyr Safon Uwch mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, mae casgliadau 2015 yn dal i fod yr un mor berthnasol.

Mae arolwg eleni'n dangos, er bod poblogaeth sefydlog o bobl ifanc 16 oed yng Nghymru rhwng 2015 a 2021, bod niferoedd yr ymgeiswyr TGAU mewn Ffrangeg ac Almaeneg wedi gostwng bron i hanner. I ategu hyn, bu niferoedd anghyson o ymgeiswyr TGAU Sbaeneg yn yr un cyfnod. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, mae'n bosib y bydd llai na chant o ymgeiswyr TGAU Ffrangeg ac Almaeneg yng Nghymru erbyn 2030 heb ymyrraeth frys ar lefel system.

Gydag ychydig dros un ymhob pump ysgol a ymatebodd heb ddisgyblion yn astudio ieithoedd rhyngwladol ym Mlwyddyn 10, bydd hyn yn cael effaith anochel ar sefyllfa Safon Uwch sydd eisoes yn fregus, ynghyd â'r llwybr at Addysg Uwch.

Ac, er bod athrawon yn poeni am y gydberthynas gymhleth rhwng ieithoedd rhyngwladol a Chymraeg a Saesneg, mae astudiaethau achos y Ffindir a Gweriniaeth Iwerddon yn dangos bod modd cynnal ymagwedd amlieithog ar lefel gwlad.

Drwy Arolwg Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2021, mae athrawon wedi gofyn am gyllid ar gyfer ymgyrch genedlaethol ar ddysgu ieithoedd, ynghyd â rhoi cyngor gyrfaol cadarn i ddisgyblion am y drysau niferus y gall dysgu ieithoedd eu hagog.

Gan adeiladu ar y gwerthusiad o Ddyfodol Byd-eang sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac yng ngoleuni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu addysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion yn ystod y pum mlynedd nesaf, mae tystiolaeth a momentwm cynyddol yn cefnogi adolygiad llawn o ieithoedd rhyngwladol ar lefel uwchradd a cholegau ôl-16 i ddatblygu Strategaeth Ieithoedd Genedlaethol ar gyfer Cymru. Gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd gan fentrau presennol fel *Towards a National Languages Strategy for the UK 2020*, dylai hyn gynnwys cynllun hirdymor i fuddsoddi yn adnoddau a sgiliau proffesiynol athrawon.

Mae ieithoedd yn hanfodol ar gyfer dyfodol Cymru, wrth iddi adfer o'r pandemig byd-eang a cheisio adeiladu a chryfhau cydberthnasau ledled y byd. Mae angen camau brys a chydlynol, ac mae'r cwricwlwm newydd yn cynnig un cyfle mewn cenhedlaeth i ddatblygu cymdeithas wirioneddol amlieithog.

Llyfryddiaeth Gyfeiriadau

Alisaari, J. Heikkola, L.M., Commins, N., ac Acquah, E.O. (2019) 'Monolingual ideologies confronting multilingual realities. Finnish teachers' beliefs about linguistic diversity', *Teaching and Teacher Education*, 80, tt. 48-58. DOI: <https://doi.org/10.1016/j.tate.2019.01.003>

Arfon, E. (2020) *Taith luosieithog y Cwricwlwm i Gymru: o bolisi i ymarfer*. British Council Cymru [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://wales.britishcouncil.org/curriculum-wales%E2%80%99plurilingual-journey-policy-practice> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Baird, J.A., Hopfenbeck, T., Ahmed, A., Elwood, J., Paget, C. a Usher, N. (2015) *Predictability in the Irish Leaving Certificate Examination*. [Ar-lein] Ar gael drwy: [Microsoft Word - WP1 FINAL \(ox.ac.uk\)](https://www.microsoft.com/word/wp1-final) (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Bergroth, M. (2016) 'Reforming the national core curriculum for bilingual education in Finland', *Journal of Immersion and Content-Based Language Education*, 4(1), tt. 86-107. DOI:10.1075/jicb.4.1.04ber

Braun, V. a Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2), tt. 77-101.

British Council Wales (2020) *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2020: Y Sgwrs*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://wales.britishcouncil.org/tueddiadau-ieithoedd-cymru-2020-y-sgwrs> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Academaidd (2021) *Learning Loss since lockdown: variation across the home nations*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://cep.lse.ac.uk/new/publications/abstract.asp?index=8228> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Gwybodaeth i Ddinasyddion (2019) *Overview of the Irish education system*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://www.citizensinformation.ie/en/education/the_irish_education_system/overview_of_the_irish_education_system.html# (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Criss, M.K. (2021) 'Riding on commitment and marketing: language teachers as policymakers in a Finnish school', *Language Policy*, 20, tt. 237-260. DOI: <https://doi.org/10.1007/s10993-020-09546-0>

Yr Adran Addysg (dim dyddiad) *Irish education system*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.education.ie/en/the-education-system/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2017a) *Languages Connect: Ireland's Strategy for Foreign Languages in Education 2017-2026*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.education.ie/en/Schools-Colleges/Information/Curriculum-and-Syllabus/Foreign-Languages-Strategy/Foreign-Languages-Strategy.html> (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2017b) *Languages Connect Ireland's Strategy for Foreign Languages in Education 2017-2026. Implementation Plan 2017-2022*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.education.ie/en/Schools-Colleges/Information/Curriculum-and-Syllabus/Foreign-Languages-Strategy/Foreign-Languages-Strategy.html> (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2020a) *Modern Foreign Languages: A Report on the Quality of Practice in Post-Primary Schools*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://assets.gov.ie/75059/ea1d4710-3e92-4a9e-b5b4-592c5cfd034e.pdf> (Cyrchwyd 10 Awst 2021).

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2020b) *Circular 0006/2020: Diversification of foreign languages provision in the curriculum*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://assets.gov.ie/49763/fbe857dc51014d839180521c0eaff1ab.pdf> (Cyrchwyd 11 Medi 2021).

ECML (2018) *Curriculum for Irish*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://www.ecml.at/Portals/1/5MTP/CEFR%20Matrix/promising-practice-files/1_Curriculum_for_Irish.pdf?ver=2018-05-31-090022-770 (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Y Comisiwn Ewropeaidd (dim dyddiad) *The Irish language in the EU: on the way to full status*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://ireland.representation.ec.europa.eu/strategy-and-priorities/key-eu-policies-ireland/status-irish-language-eu_en (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Yr Undeb Ewropeaidd (2020) *Finland*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://europa.eu/european-union/about-eu/countries/member-countries/finland_en (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (dim dyddiad, a) *Introducing an earlier start in language teaching: Language learning to start as early as in kindergarten*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://www.oph.fi/sites/default/files/documents/introducing_an_earlier_start_in_language_teaching.pdf (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (dim dyddiad, b) *Finland invests in early language learning*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://www.oph.fi/sites/default/files/documents/finland_invests_in_early_language_learning.pdf (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (2017) *Finnish Education in a nutshell*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.oph.fi/en/statistics-and-publications/publications/finnish-education-nutshell> (Cyrchwyd 28 Awst 2021).

Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (2019) *Facts Express 1C/2019: What languages do pupils study in basic education?* [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.oph.fi/en/statistics-and-publications/publications/facts-express-1c2019-what-languages-do-pupils-study-basic> (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir (2016) *New national core curriculum for basic education: focus on school culture and integrative approach*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.oph.fi/sites/default/files/documents/new-national-core-curriculum-for-basic-education.pdf> (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Foras na Gaeilge (2021) *Séideán Sí*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.seideansi.ie/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Gaelscoileanna Teo (2021) *Gaelscoileanna*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <http://www.gaelscoileanna.ie/en/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Gorrara, C., Jenkins, L., Jepson, E. a Machin, T. (2020) 'Multilingual perspectives: preparing for language learning in the new curriculum for Wales', *The Curriculum Journal*, 31(2), tt. 244-257.

Llywodraeth Iwerddon (2010) *20-Year Strategy for the Irish Language 2010-2030*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.gov.ie/en/policy-information/2ea63-20-year-strategy-for-the-irish-language/> (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Llywodraeth Iwerddon (2012) *Gaeltacht Act 2012*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.gov.ie/en/publication/cc6a9-gaeltacht-act-2012/> (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Llywodraeth Iwerddon (2018) *Action Plan 2018-2022: Progress Report July 2018-June 2019*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.gov.ie/en/policy-information/1418a-action-plan-2018-2022/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Llywodraeth Iwerddon (2021) *Datganiad i'r wasg: 32 Amendments to strengthen the Official Languages (Amendment) Bill approved*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.gov.ie/en/press-release/0c247-32-amendments-to-strengthen-the-official-languages-amendment-bill-approved/> (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Henderson, L. a Carruthers, J. (2021) 'Socio-economic factors, school type and the uptake of languages: Northern Ireland in the wider UK context', *The Language Learning Journal*. DOI: <https://doi.org/10.1080/09571736.2021.1888151>

Tai'r Oireachtas (2021) *Official Languages (Amendment) Bill 2019*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.oireachtas.ie/en/bills/bill/2019/104/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

InfoFinland (2021) *Finnish History*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.infofinland.fi/en/information-about-finland/basic-information-about-finland/finnish-history> (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

Llyfr Statud Iwerddon (2003) *Official Languages Act 2003*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <http://www.irishstatutebook.ie/eli/2003/act/32/enacted/en/html> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Llyfr Statud Iwerddon (2020) *Constitution of Ireland, Article 8*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <http://www.irishstatutebook.ie/eli/cons/en/html#part2> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Irish Times (2017) *Ní thuigim: Irish language faces stark threat in its heartland*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.irishtimes.com/news/politics/n%C3%AD-thuigim-irish-language-faces-stark-threat-in-its-heartland-1.3039534> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Jones, C. (2019) *Addysg Addas ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru: Papur Gwyn i'w Drafod*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/10/WELSH-2019-10-16-Fit-for-the-Future-Education-in-Wales-1.pdf> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Jungerstam, S. a Wentjärvi, A. (2019) 'Country Portrait Finland – The Finnish Welfare State', *socialnet International*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.socialnet.de/en/international/finland.html> (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

King, L. a Carson, L. (2017) *Multilingual Identities: A study of attitudes towards multilingualism in three European cities*. Llundain: The Languages Company, tt. 1-107. [Ar-lein] Ar gael drwy: http://www.tara.tcd.ie/bitstream/handle/2262/91831/Three-Cities_King%26Carson_2017.pdf?sequence=1&isAllowed=y (Cyrchwyd 11 Medi 2021).

Languages Connect (2021) *Think Languages TY Event*. [Ar-lein] Ar gael drwy: [ThinkLanguages - Languages Connect](https://www.thinklanguages.com/) (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Liberio, C. a Rafael Oliveras, C. (2021) 'Multilingualism and Primary Initial Teacher Education in the Republic of Ireland: Policies and Practice', yn Wernicke, M., Hammer, S. a Hansen, A. (goln.), *Preparing Teachers to Work with Multilingual Learners*. Bryste, Uwchgynhadledd Blue Ridge: Multilingual Matters, tt. 147-167.

Prifysgol Maynooth (2021) *Vifax*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://vifax.maynoothuniversity.ie/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant (dim dyddiad) *Basic Education Act 628/1998*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://minedu.fi/en/legislation-general-education> (Cyrchwyd 28 Awst 2021).

Y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant (2017a) *Report on the state and development needs of Finland's language reserve published*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://minedu.fi/en/-/selvitys-suomen-kielivarannon-tilasta-ja-kehittamistarpeista-julkaistu> (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant (2017b) *Multilingualism as a strength*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://minedu.fi/documents/1410845/5875747/Multilingualism_tiivistelm%C3%A4.pdf/be86bffa-d55f-4935-bff4-2fd150c82067/Multilingualism_tiivistelm%C3%A4.pdf (Cyrchwyd 30 Awst 2021).

Y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant (2021) *Finnish Education System*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://minedu.fi/en/education-system> (Cyrchwyd 28 Awst 2021).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2003) *Language Act 423/2003*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.finlex.fi/en/laki/kaannokset/2003/en20030423.pdf> (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017) *Action Plan for the Strategy for the National Languages of Finland*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://oikeusministerio.fi/documents/1410853/4734397/ActionPlan_StrategyfortheNationalLanguages.pdf/5513fe14-d092-4404-9ec1-d3a6e6a354af (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) *Constitution of Finland*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://oikeusministerio.fi/en/constitution-of-finland> (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2019) Arto Jääskeläinen: 100 years since the first parliamentary elections in independent Finland. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://oikeusministerio.fi/en/-/arto-jaaskelainen-100-years-since-the-first-parliamentary-elections-in-independent-finland> (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Prifysgol Genedlaethol Iwerddon (2021) *Entry Requirements*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <http://www.nui.ie/college/entry-requirements.asp> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

NCCA (2021) *Curriculum Online: Gaeilge*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.curriculumonline.ie/Junior-cycle/Junior-Cycle-Subjects/Gaeilge/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

OUEA (2015) *Investigation into the Predictability of the Irish Leaving Certificate Examinations*. [Ar-lein] Ar gael drwy: [Investigation into the Predictability of the Irish Leaving Certificate Examinations – OUEA \(ox.ac.uk\)](https://www.ouea.ie/Investigation-into-the-Predictability-of-the-Irish-Leaving-Certificate-Examinations) (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Peda.net (dim dyddiad) *Kielishuihkutus in English: Language Showering*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://peda.net/jyvaskyla/kielishuihkutus/in-english> (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

PPLI (2017) *Audit of Foreign Languages in Schools*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://ppli.ie/news/audit-of-foreign-languages-in-schools/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

PPLI (2019) *Lets' build a playlist for the classroom!* [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://ppli.ie/resources/?resource=lets-build-a-playlist-for-the-classroom> (Cyrchwyd 11 Medi 2021).

PPLI (2020) *PPLI Annual Report 2020 – Post-Primary Languages Ireland*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://ppli.ie/news/ppli-annual-report-2020/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

PPLI (2021a) *Languages Connect*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://languagesconnect.ie/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

PPLI (2021b) *Post-Primary Languages Ireland*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://ppli.ie/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

PPLI (2021c) *Importance of Learning a foreign language: parents' perspective*. (Ar gael ar gais: [Post-Primary Languages Ireland | Cyswllt - Post-Primary Languages Ireland \(ppli.ie\)](https://ppli.ie/news/post-primary-languages-ireland-cyswllt-post-primary-languages-ireland))

Swyddfa'r Prif Weinidog: Y Ffindir (2015) *Finland, a land of solutions: Strategic Programme of Prime Minister Juha Sipilä's Government 29 May 2015*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://vnk.fi/documents/10184/1427398/Ratkaisujen+Suomi_EN_YHDISTETTY_net.pdf/8d2e1a66-e24a-4073-8303-ee3127fbfcac (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Cymwysterau Cymru (2021) *Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Y dewis iawn i Gymru*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://qualificationswales.org/media/6998/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol-y-dewis-iawn-i-gymru-ymgynghoriad.pdf> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

RTE (2018) *Speaking your language: Ireland's 72 different languages*. [Ar-lein] Ar gael drwy: [Speaking your language: Ireland's 72 different languages \(rte.ie\)](https://www.rte.ie/news/ireland/2018/07/27/speaking-your-language-irelands-72-different-languages/) (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Ystadegau'r Ffindir (2019) *Independence Day 2019*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://www.stat.fi/tup/tilastokirjasto/itsenaisyySPAIVA-2019_en.html (Cyrchwyd 28 Awst 2021).

Ystadegau'r Ffindir (2020) *English is studied most in upper secondary level education*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://www.stat.fi/til/ava/2019/01/ava_2019_01_2020-11-26_tie_001_en.html (Cyrchwyd 28 Awst 2021).

Ystadegau'r Ffindir (2021) *Finland in Figures*. [Ar-lein] Ar gael drwy: https://www.stat.fi/tup/julkaisut/tiedostot/julkaisuluettelo/yyti_fif_202100_2021_23492_net_p2.pdf (Cyrchwyd 27 Awst 2021).

Teagasc na Gaeilge (dim dyddiad) *An Mheitheal um Theagasc na Gaeilge ar an Tríú Leibhéal*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <http://teagascnagaeilge.ie/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

TEG (2021) *Teastas Eorpach na Gaeilge* [Ar-lein] Ar gael drwy: www.teg.ie (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

The Guardian (2018) *Safe, happy and free: does Finland have all the answers?* [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.theguardian.com/world/2018/feb/12/safe-happy-and-free-does-finland-have-all-the-answers> (Cyrchwyd 29 Awst 2021).

Údarás na Gaeltachta (2021) *Our Language & The Gaeltacht*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://udas.ie/en/our-language-the-gaeltacht/> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

UNESCO (2017) *UNESCO Atlas of the World's Languages in Danger*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <http://www.unesco.org/languages-atlas/index.php> (Cyrchwyd 25 Awst 2021).

Prifysgol Jyväskylä (2017) *JULIET – Jyväskylä University Language Innovation and Educational Theory action research project*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.jyu.fi/edupsy/en/research/projects/juliet> (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Prifysgol Jyväskylä (2021a) *A Map and Compass for Innovative Language Education: Steps towards development*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://jyx.jyu.fi/bitstream/handle/123456789/77470/IKI%2520handbook%25202021%2520-%2520A%2520Map%2520and%2520Compass.pdf?sequence=1&isAllowed=y> (Cyrchwyd 10 Medi 2021).

Prifysgol Jyväskylä (2021b) *Reflections on Multilingualism in School citizen science pilot*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://www.jyu.fi/en/collaboration/partnerships/forthem/forthem-blog/february-2021-reflections-on-multilingualism-in-school-citizen-science-pilot> (Cyrchwyd 30 Awst 2021).

Llywodraeth Cymru (2015) *Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015-2020*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-a-hyrwyddo-ieithoedd-tramor-modern.pdf> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020a) *Foreign language teaching policy in primary schools: Cymru*. Ymchwil mewn leithoedd Cynradd. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://ripl.uk/foreign-language-teaching-policy-in-primary-schools-wales/> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020b) *Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/cynllunio-eich-cwricwlwm/> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020c) *Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2020 i 2022*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/cynllunio-eich-cwricwlwm/> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020d) *Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-weithredu-r-cwricwlwm/> (Cyrchwyd 8 Medi 2021). (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020e) *Adroddiad Cryno 5 Mlynedd Dyfodol Byd-eang 2015 i 2020*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/adroddiad-cryno-5-mlynedd-dyfodol-byd-eang-2015-i-2020> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2021a) *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021: Memorandwm Esboniadol yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/deddf-cwricwlwm-ac-asesu-cymru-memorandwm-esboniadol> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2021b) *Amserlen cau ysgolion yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19), Mawrth 2020 i Ebrill 2021*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/amserlen-cau-ysgolion-yn-ystod-pandemig-coronafeirws-covid-19> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2021c) *Disgyblion yn bresennol mewn ysgolion a gynhelir: 7 Medi 2020 i 23 Gorffennaf 2021*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/disgyblion-yn-bresennol-mewn-ysgolion-a-gynhelir-7-medi-2020-i-23-gorffennaf-2021> | LLYW.CYMRU (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2021d) *Canllawiau arholiadau ac asesu: 2020 i 2021*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/canllawiau-arholiadau-ac-asesu-2020-i-2021> (Cyrchwyd 8 Medi 2021).

Llywodraeth Cymru (2021e) *Y Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026*. [Ar-lein] Ar gael drwy: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026.pdf> (Cyrchwyd 21 Hydref 2021)

Wernicke, M. Hammer, S. a Hansen, A. (2021) *Preparing Teachers to Work with Multilingual Learners*. Bryste, Uwchgynhadledd Blue Ridge: Multilingual Matters. <https://doi.org/10.21832/9781788926119>

Ôl-nodiadau

1. Gweler: <https://www.thebritishacademy.ac.uk/publications/towards-national-languages-strategy-education-and-skills/>
2. Llywodraeth Cymru (2021)
3. Llywodraeth Cymru (2020d)
4. Llywodraeth Cymru (2021a:121, §8.275)
5. Dim ond y '3 Mawr' mae'r dadansoddiad hwn yn eu cymharu – Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg
6. Henderson a Carruthers (2021)
7. Jones (2019:5)
8. Llywodraeth Cymru (2020b)
9. Arfon, E. (2020)
10. Ar hyn o bryd, dim ond TGAU yn ieithoedd rhwngwladol Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ('Y 3 Mawr') mae Cymwysterau Cymru yn ei ddarparu. Mae 'ieithoedd eraill' yn cyfeirio at ieithoedd heblaw am Gymraeg, Saesneg a'r '3 Mawr'. Gallai ymgeiswyr yng Nghymru sefyll cymwysterau TGAU sydd wedi'u dylunio yn Lloegr mewn hyd at 18 o ieithoedd.
11. Gorrara et al. (2020)
12. Llywodraeth Cymru (2017)
13. Cymwysterau Cymru (2021)
14. Llywodraeth Cymru (2021b)
15. Y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd (2021)
16. Llywodraeth Cymru (2021c)
17. Llywodraeth Cymru (2021d)
18. Braun a Clarke (2006)
19. Gweler: https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/cyfathrebu-busnes-byd-eang-ffrangeg-lefel-1-2/#tab_overview
20. Gweler: <https://www.routesintolanguages.ac.uk/activities/cymru>
21. Gweler: <http://mflmentoring.co.uk/>
22. InfoFinland (2021)
23. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2019)
24. Yr Undeb Ewropeaidd (2020)
25. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018)
26. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2003)
27. Deddf Addysg Sylfaenol 628/1998, §4.4
28. Gweinyddiaeth Gyfiawnder y Ffindir (2018:4, §17)
29. Ystadegau Ffindir (2021:4)
30. Ystadegau Ffindir (2019)
31. Jungerstam a Wentjärvi (2019)
32. Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (2017)
33. Y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant (2021)
34. Ibid
35. Y Weinyddiaeth Addysg a Diwylliant (dim dyddiad)
36. Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (2017:15-16)
37. Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (2019)
38. Ystadegau Ffindir (2020)
39. Swyddfa'r Prif Weinidog: Y Ffindir (2015:18,41)
40. Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (2019:2)
41. Bwrdd Addysg Cenedlaethol y Ffindir (2016)
42. Alisaari et al. (2019:48-58)
43. Asiantaeth Addysg Genedlaethol y Ffindir (dim dyddiad, a, b)
44. Peda.net (dim dyddiad)
45. Prifysgol Jyväskylä (2021a)
46. Bergroth (2016)
47. Criss (2021)
48. Prifysgol Jyväskylä (2017)
49. Llyfr Statud Iwerddon (2020, Erthygl 8.1, 8.2)
50. Y Comisiwn Ewropeaidd (dim dyddiad)
51. Llyfr Statud Iwerddon (2003)
52. Tai'r Oireachtas 2021 (§18C, 3b o Bil Ieithoedd Swyddogol (Diwygio) 2019).
53. Llywodraeth Iwerddon (2012)
54. UNESCO (2017)
55. Irish Times (2017)
56. Llywodraeth Iwerddon (2018:8)
57. Gwybodaeth i Ddinasyddion (2019) a'r Adran Addysg (dim dyddiad)
58. Gaelscoileanna Teo (2021)
59. NCCA (2021)
60. Prifysgol Genedlaethol Iwerddon (2021)
61. Yr Adran Addysg a Sgiliau (2017a)
62. King a Carson (2017)
63. Liberio ac Oliveras (2021)
64. PPLI (2021c)
65. Languages Connect (2021)
66. RTE (2018)
67. OUCEA (2015); Baird et al. (2015)
68. Yr Adran Addysg a Sgiliau (2020a)
69. Yr Adran Addysg a Sgiliau (2020b)
70. PPLI (2019)
71. PPLI (2020:21)
72. Yr Adran Addysg a Sgiliau (2020:15)
73. The Guardian (2018)

